

# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Medi 2012

Rhif 425


50c

## Pesda'n Rocio



Diolch o galon i'r pwyllgor ifanc am eu gwaith caled yn sicrhau wythnos ddifyr, a phob hwyl iddyn nhw gyda'u menter nesaf, ar y cyd â Llenyddiaeth Cymru - Llên y Llechi. Mi gewch chi ragor o fanylion am honno ar dudalen 18.

Beirdd a chantorion, enwogion o fri. Dyna gawson ni yn y Dyffryn ddiwedd Awst wrth i ŵyl Pesda Roc gael ei chynnal unwaith eto. O Dalwrn y Beirdd i Gôr y Penrhyn, o hen rocars fel Steve Eaves a Geraint Jarman i fandiau ifanc fel Radio Rhydd a Vintage Magpie, roedd Bethesda'n fwrlwm o adloniant amrywiol. Yn y Llais y mis hwn mae 'na adroddiad o'r Ŵyl ynghyd â rhagor o luniau.



# Llais Ogwan

## PANEL GOLYGYDDOL

<b>Derfel Roberts</b>	☎ 600965
hylaw@btinternet.com	
<b>Ieuan Wyn</b>	☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk	
<b>Lowri Roberts</b>	☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com	
<b>Dewi Llewelyn Siôn</b>	☎ 600274
dewision@btinternet.com	
<b>Fiona Cadwaladr Owen</b>	☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk	
<b>Siân Esmor Rees</b>	☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com	
<b>Neville Hughes</b>	☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com	
<b>Dewi A Morgan</b>	☎ 602440
dewimorgan@fsmail.net	
<b>Walter W Williams</b>	☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk	

## SWYDDOGION

### Cadeirydd:

André Lomozik, Zakopane,  
7 Rhos-y-Coed, Bethesda, Bangor,  
Gwynedd LL57 3NW ☎ 602117

### Trefnydd Hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,  
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853  
nev\_hughes@btinternet.com

### Ysgrifennydd:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,  
3 Sgwâr Buddug, Bethesda  
LL57 3AH ☎ 601415  
garethllwyd197@btinternet.com

### Trysorydd:

Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,  
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872

### Y Llais Drwy'r Post:

Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,  
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184

## Golygydd y Mis

Golygydd y mis hwn oedd Siân Esmor Rees.

Golygydd mis Medi fydd Fiona Cadwaladr Owen, Bryn Meurig Bach, Coed y Parc, Bethesda LL57 4YW (01248) 601592  
[Fiona@fowen.wanadoo.co.uk](mailto:Fiona@fowen.wanadoo.co.uk)

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 7 Hydref, os gwelwch yn dda. Plygu nos lau, 18 Hydref yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

## Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Gareth Llwyd** ☎ 601415  
**Neville Hughes** ☎ 600853

## DYDDIADUR Y DYFFRYN

### Mis Medi

- Bore Coffi Eglwys y Santes Fair, Tregarth. Neuadd Ogwen 10.00 - 12.00
- Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 - 12.00.
- Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00.
- Sioe Ffasiwn (So Chic) yn Festri Uchaf Capel Jerusalem am 7.00
- Plaid Lafur Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30
- Merched y Wawr, Bethesda. Noson yng nghwmni Lisa Jên a Martin. Cefnfaes am 7.00
- i 30 Gŵyl Llên y Llechi. Digwyddiadau a lleoliadau amrywiol.
- Bore Coffi Plaid Cymru. Neuadd Ogwen 10.00 - 12.00
- Ffair Hydref Ysgol Llanllechid. Yn yr ysgol 11.00 - 3.00

### Mis Hydref

- Merched y Wawr, Tregarth. Hanes Lleol gan Dr J. Elwyn Hughes. Festri Shiloh am 7.00
- Cymdeithas Lenyddol Gofalaeth Bro Ogwen. Festri Jerusalem am 7.00
- Sefydliad y Merched Carneddi. Mr Bob Daimond. Cefnfaes am 7.00.
- Bingo a Noson Goffi tuag at Fyddin yr Iachawdwriaeth. Canolfan Glasinfryn am 7.30.
- 05/06/07 Gŵyl Afon Ogwen. Digwyddiadau o bob math.
- Bore Coffi Capel Bethlehem Talybont. Neuadd Ogwen 10.00 - 12.00
- Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen. Festri Capel Jerusalem am 7.00.
- Cyfarfod Blynyddol Canolfan Rachub. Yn y Ganolfan am 7.30.
- Bore Coffi Merched y Wawr. Neuadd Ogwen 10.00 - 12.00
- Marchnad Cynnyrch Lleol Dyffryn Ogwen, Llys Dafydd 10.00 - 2.00
- Cyfarfodydd Dathlu 150 mlwyddiant Capel Bethlehem, Talybont am 4.30 a 6.30.
- 19/20 Sioe Glybiau Theatr Bara Caws – "Un bach arall eto...". Clwb Rygbi Bethesda am 7.30.
- Bore Coffi Capel Jerusalem. Neuadd Ogwen 10.00 - 12.00.
- Bore Coffi Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen 10.00 - 12.00

### Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan Tasg,  
Gorffwysfa, Sling, Tregarth  
LL57 4RJ ☎ 07902 362 213  
[post@tasg.co.uk](mailto:post@tasg.co.uk)

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,  
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY  
☎ 01248 601669

## Rhoddion i'r Llais

- £ 5.00 Teulu'r ddiweddar Olive Jones, Talmignedd Isa, Nantlle
- £ 5.00 Mrs Doris Shaw, Llwyn Hudol, Bangor
- £20.00 Dienw, Llandygai
- £40.00 Er cof annwyl am John Gareth Parry, 45 Adwy'r Nant a hunodd 2 Awst 2003. Hefyd Robert (Bob) Parry, 43 Adwy'r Nant, a hunodd 19 Medi 2009. (Colli chi a'ch caru chi am byth, Ann a'r Teulu xxx)
- £ 5.00 Dienw, Braichmelyn
- £20.00 Er cof am Emyr (Llefrith), Ffarm Cilfodan.
- £10.00 Ann a Dei Parry, Ffordd Bangor, Bethesda.
- £ 5.00 C. Ford.

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

### Gwobrau Mis Awst

- £30.00 (17) O.G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda.
- £20.00 (23) Mrs Brenda Owen, 12 Ffordd Ffrydlas, Bethesda
- £10.00 (30) Alan Puw, Arllechwedd, Bethesda.
- £5.00 (77) Miss J. B. Williams, 20 Lôn Ganol, Cae Tros Lôn, Porthaethwy.

### Gwobrau Mis Medi

- £30.00 (18) Mrs Jennie Jones, 11 Bryn Caseg, Bethesda.
- £20.00 (39) Alan Davies, Tyddyn Canol, Mynydd Llandygái.
- £10.00 (103) Mrs Gwen Ellis, Pant y Gwair Uchaf, Llanllechid.
- £5.00 (79) Mrs Bronwen H. Davies, Tyddyn Canol, Mynydd Llandygái.

## Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

£18 Gwledydd Prydain  
£27 Ewrop  
£36 Gweddill y Byd



Owen G. Jones, 1 Erw Las,  
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN  
[post@llaisogwan.com](mailto:post@llaisogwan.com)

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidiwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.



Ariennir gan  
Lywodraeth Cymru

# Olygyddol

Mae plant a rhieni Dyffryn Ogwen yn eithriadol o ffodus. Mae gennym lu o ysgolion ardderchog yn y cylch. Yn gynharach eleni cyhoeddwyd adroddiad ar yr arolwg a gafodd Ysgol Pen-y-bryn gan dîm arbenigol Estyn. Dyma rai o'r pwyntiau a gododd yn yr adroddiad:

Roedd yr arolygwyr yn ystyried bod gan y Pennaeth, Mrs. Ceren Lloyd, 'adnabyddiaeth dda iawn o'r ysgol a gweledigaeth glir sy'n cael ei rhannu gan y dirprwy, staff a'r llywodraethwyr.' Roedden nhw'n nodi hefyd fod yna 'ethos ofalgar sy'n sicrhau fod bron pob disgybl (100%) yn mwynhau dysgu ac yn teimlo'n ddiogel.' Nodwyd bod y profiadau dysgu a ddarperir yn yr ysgol yn 'rhagorol'.

Dyma ambell ddyfyniad o'r adroddiad:

**'Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth o brofiadau dysgu cyfoethog ar gyfer disgyblion o bob oedran a gallu.....a bod cyfleoedd i'r holl ddisgyblion brofi amrediad helaeth o weithgareddau symbylus a heriol.'**

**'Mae dylanwad rôl y cymorthyddion a'r Grŵp effeithiolrwydd yn sgil cyfoethogi'r ddarpariaeth yn elfen gref iawn..... mae'r rhan a roddir i'r disgyblion yn y broses hon yn arloesol.'**

**Mae rhan y disgyblion o fewn y cynllunio a'u dealltwriaeth o fedrau meddwl o fewn y dysgu yn rhagorol..... 'Mae'r modd y mae'r disgyblion yn cyfrannu at y broses hunanarfarnu ac yn dylanwadu ar weithrediad yr ysgol yn arfer arloesol'.**

Wrth ymfalchïo yn yr adroddiad, dywedodd Mrs. Ceren Lloyd, y Pennaeth: "Mae'r llwyddiant yn dystiolaeth o ymroddiad a gweithgarwch cyson holl staff addysgu ac ategol yr ysgol, holl rannau deiliaid yr ysgol, ynghyd â chefnogaeth ddiplino aelodau Corff Llywodraethu Ysgol Pen-y-bryn."

Os hoffech gopi llawn o'r adroddiad, cysylltwch â'r ysgol.

## Cymdeithas Alzheimer

Dewch i ganu ac i gael ychydig o hwyl yn un o'n sesiynau "Singing for the brain" sy'n cael eu cynnal bob pythefnos ar foreau dydd Mercher o 10:30 tan 12:30 yn Nhŷ Cwrdd y Crynwyr, Stryd y Deon, Bangor.

Arfon Wyn a Nia Williams o Ganolfan Gerdd William Mathias, Caernarfon sy'n arwain y sesiynau ac mae 'na gyfle i ganu amrywiaeth eang o gerddoriaeth gan gynnwys rhai poblogaidd ac wrth gwrs hen ffefrynnau.

Does dim angen i chi allu canu a does 'na ddim pwysa ar unrhyw un i gyfrannu, dim ond eich bod yn mwynhau'r cyfle i gael hwyl.

Mae'r sesiynau yn rhad ac am ddim i bobol sy'n byw efo dementia, eu teuluoedd, ffrindiau neu ofalwyr.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Chymdeithas Alzheimer ar 01745 343026.

Mi fydd y cyfarfod nesaf ar y 3ydd o Hydref, dewch.

**Tracy Stockin,**  
Cymdeithas Alzheimer,  
denbighshire@alzheimers.org.uk

## Cymru Ddoe a Heddiw [CWRS HYDREF]

Bydd cwrs yn cael ei gynnal yn y Ganolfan Cymraeg i Oedolion, Stryd Y Deon, Bangor, yn dwyn y teitl Cymru Ddoe a Heddiw, bob nos Iau rhwng 7 a 9 o'r gloch. Y darlithydd fydd Tecwyn Vaughan Jones.

Bydd cyfle yn ystod y cwrs i drin a thrafod pob math o agweddau ar ddiwylliant Cymru: pobl, iaith, llenyddiaeth, llên gwerin, gwleidyddiaeth, crefydd, chwaraeon, yr Eisteddfod ac yn y blaen. Bydd rhywbeth at ddant pawb gobeithio.

Bydd y cwrs yn dechrau nos Iau, y 4ydd o Hydref.

Cost y gyfres o ddeg darlith fydd £40, neu £20 i'r rhai di-gyflog.

Os am fwy o fanylion am y cwrs neu i gofrestru, cysylltwch â:

**Nia Llwyd, ffôn:**  
**01248 382909;**  
n.llwyd@bangor.ac.uk

## MAE CALENDR LLAIS OGWAN 2013 EICH ANGEN CHI!!!!

Oes gennych chi luniau fyddai'n addas i galendr Llais Ogwan? Byddwn yn falch iawn o'u derbyn.

Rydym am geisio rhoi blaenoriaeth yn y calendr nesaf i luniau sy'n adlewyrchu Gwaith a Hamdden yn Nyffryn Ogwen, ond nid oes raid i'ch lluniau ddilyn y thema honno – llun diddorol a da sy'n bwysig – bydd pob un yn cael ei ystyried

Gyrrwch y lluniau – yn electronig, os yn bosibl, (ond nid yn angenrheidiol) i: Dafydd Fôn Williams 14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan, LL57 3TR

dafydd@gerlsn.wanadoo.co.uk

## CYN DIWEDD MEDI, OS GWELWCH YN DDA!

Edrychwn ymlaen at dderbyn y lluniau

## Llythyr

### Annwyl Olygydd,

Hoffwn drwy gyfrwng Llais Ogwan ddiolch i bawb a fu ynglŷn â threfnu Pesda Roc eleni. Roeddent wedi gweithio yn arbennig o galed i ddod â'r arlwy yma i'r dyffryn. Yn ogystal â dod â'r byd roc a phop i Neuadd Ogwen a rhai o'r tafarndai a thai bwyta lleol roedd hefyd nosweithiau gyda naws gwahanol, megis y Talwrn a'r Noson Lawen. Efallai y buasai wedi bod yn well o edrych yn ôl petai'r nosweithiau hyn wedi eu hysbysebu ar wahân ond nid wyf yn gweld bod hyn yn unrhyw esgus dros y seddi gweigion ar y ddwy noson. Roedd hysbyseb ddigon mawr ar gefn Llais Ogwan.

Roedd beirdd cadeiriol yn cymryd rhan yn y talwrn a llu o ddoniau lleol yn wledd i bawb ar y nos Sul heb orfod teithio ymhell i'w gweld na thalu crogbris. Diolch i chi i gyd am roi o'ch gorau er gwaethaf y gynulleidfa siomedig o ran nifer.

Diolch unwaith eto i'r trefnwyr i gyd am eu gwaith di-flino a hynny drwy'r flwyddyn.

**Yn gywir,**  
**E. Mary Jones**  
**Erw Las**

## Merched y Wawr Rhanbarth Arfon,

### Is-bwyllgor er budd yr Anabl.

Ers 30 o flynyddoedd bellach mae aelodau o Ferched y Wawr Rhanbarth Arfon wedi bod yn casglu arian at achosion da. Mae symiau anrhydeddus wedi cael eu cyflwyno i nifer fawr o sefydliadau elusennol dros y blynyddoedd a braf yw cael dweud fod cyfanswm y casgliadau ers y dechrau wedi cyrraedd £49,614.



Yn y llun gwelir Trysorydd Pwyllgor yr Anabl, Glenys Griffiths yn cyflwyno sic i Margaret Haines, Trysorydd Urdd Cyfeillion Ysbyty Eryri am £2,830.00 yn dilyn dau weithgaredd eleni.

# Bethesda

**Llên Ogwen,**  
Stryd Fawr, Bethesda  
☎ 600431

**Siop Kathy**  
Stryd Fawr, Bethesda

**Fiona Cadwaladr Owen,**  
Bryn Meurig Bach,  
Coed y Parc, Bethesda,  
LL57 4YW ☎ 601592

**Joe Hughes,**  
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,  
Bethesda ☎ 601902

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Michael Ford, Bryn Caseg, ar ennill gradd mewn Technoleg Fecanyddol. Da iawn Chdi!

## Swydd Newydd



Llongyfarchiadau i Alwen Hâf Griffith, 8 Ffordd y Stesion Bethesda, ar ennill gradd BA Anrhydedd mewn Astudiaethau Plentynod ym Mhrifysgol Bangor. Fe fu Alwen yn astudio ym Mangor am dair blynedd ac mae hi wedi bod yn ffodus iawn o gael swydd lawn amser yn Ysgol Caergeiliog, Caergybi yn dechrau ym mis Medi. Dymunwn bob hapusrwydd a phob lwc iddi yn ei swydd newydd, oddi wrth Dad, Mam, Aled a Nain Gwen.

## Doethuriaeth i Hogyn o Pesda

Llongyfarchiadau i Dr. Rhodri Llŷr Evans (Erw Las gynt) ar dderbyn doethuriaeth yn y Gymraeg o Brifysgol Bangor.

## Y Gemau Olympaidd

Llongyfarchiadau i Lois Evans, Erw Las, Bethesda. Gwahoddwyd Lois, sydd yn dysgu yn Ysgol Llanfechell ar Ynys Môn, gan bwyllgor y Gemau Olympaidd yn Llundain i ymweld â'r tîm ym mis Hydref i draddodi araith ynglŷn â'r gwaith y bu hi'n ei wneud â blwyddyn pump a chwech yn yr ysgol. Roedd y pwyllgor wedi ei syfrdanu â'r gwaith a wnaethpwyd ganddi hi a'r plant. Yn ôl y pwyllgor dyma'r unig gysylltiad â Chymru o ran addysg. Bydd yr Arglwydd Seb Coe yn ei chyfweld ynghyd â llawer o athletwyr 'Team GB' i drafod camau nesaf lechyd, Ffitrwydd a Lles Prydain Fawr. Braf yw clywed y bydd merch o Pesda yn rhoi ein pentref bach ni ar y map. Pob lwc i Lois yn Llundain!

## Siswrn Arian

Newyddion trist gafodd cwsmeriaid Siswrn Arian, siop trin gwallt ar y Stryd Fawr, yn ddiweddar. Cawsant wybod bod y busnes yn dod i ben. Diwedd cyfnod felly o bron i dri deg o flynyddoedd gan deulu lleol. Pan agorwyd i ddechrau Vivien Parry oedd yn trin gwallt gyda'i mam Vera yn helpu yn y siop. Yn fuan daeth chwaer Vivien, sef Amanda hefyd i ymuno â hwy.

Croesawyd pob cwsmer gyda gwên a byddai eu hymweliadau yno yn bleser, triniaeth o safon a chael sgwrs gyda'r naill a'r llall. Deuai pobl yno o bell ac agos a buont yn driw iawn i'r busnes.

Dymuna Vera, Vivien ac Amanda ddiolch yn gynnes i Jenny, Nicola a phawb am eu cwsmeriaeth yn ystod y blynyddoedd, dymunant yn dda i bawb.

Rydym ninnau hefyd yn diolch am eu gwasanaeth a dymunwn yn dda i Vera, Vivien, Amanda, Jenny a Nicola yn y dyfodol.

## Pen-blwydd arbennig

Pen-blwydd Hapus iawn i Glyn Campbell, Erw Las a ddatlodd ei ben-blwydd yn 80 oed ym mis Awst. Dymuna Glyn ddiolch i bawb am y dymuniadau da a'r rhoddion ar yr achlysur arbennig hwn.

## Diolch

Dymuna Keith a Janice Thomas gynt o'r Tŷ Isaf ddiolch o galon i bawb am eu cwsmeriaeth a'u cyfeillgarwch a'r amser difyr a dreuliodd dros y blynyddoedd y buont yn cadw'r dafarn. Mae'r ddau bellach wedi ymgartrefu ym Maes yr Athro a dymunwn yn dda i Janice ar ôl ei hanhwylder yn ddiweddar.

## Diolch

Dymuna Rita Lewis, Bryn Meirion, Allt Pen-y-bryn ddiolch i'r teulu a chyfeillion am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau da ar ei phen-blwydd arbennig ar 8 Gorffennaf.

## Diolch

Dymuna Ann a Dei Parry, Ffordd Bangor, a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain, a hen nain a oedd mor annwyl ganddynt. Hunodd Enid Jones ar 6 Awst yn dawel ym Mhlas Ogwen lle roedd wedi ymgartrefu ers blwyddyn a hanner. Cyn mynd i Blas Ogwen roedd Enid yn byw ym Mron Bethel, Rachub, ac wedi ymuno â'r Clwb Gweu, Te Bach a Chlwb yr Henoed. Roedd hefyd yn mynychu Capel Bethel.

Hoffai'r teulu ddiolch i Staff Plas Ogwen am eu gofal arbennig a diflino drosti i'r diwedd. Diolch hefyd am y rhoddion hael at gronfa mwynderau Plas Ogwen. Yn olaf, diolch i Gareth Williams yr ymgymerwr am ei wasanaeth trylwyr a gofalus.

## Priodas Ruddem

Ar ddydd Sadwrn, 26 Awst, datlodd Mr a Mrs John Cooney, 3 Glanffrydlas eu priodas ruddem. Llongyfarchiadau i chi a gobeithio eich bod wedi mwynhau'r parti.

## Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Selwyn Owen, Ffordd Ffrydlas ar yr achlysur hapus o ddod yn nain a thaid i ferch fach o'r enw Lowri.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Joan Parry, Abercaseg ar yr achlysur o ddod yn nain i efeilliaid, sef bachgen a merch, Ynyr ac Elliw.

## Hen Nain

Llongyfarchiadau i Mrs Rita Evans, Erw Las ar ddod yn hen nain, i ferch fach, am y tro cyntaf.

## Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Miss Heddwen Thomas, Maesygarneidd yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd yn Hull.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr Robert Jones, 24 Stryd Fawr, yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer Mrs Irene Spring yn Ontario, Canada, ar 16 Gorffennaf yn 80 oed.

## Ysbyty

Yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst bu sawl un yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth. Da deall eich bod yn gwella. Cofion cynnes iawn atoch i gyd a hefyd at bawb sy'n sâl gartref.

Mr Stan Edwards, Coetmor;

Mrs Betty Whitehead, Plas Ogwen;

Mr Bill Lloyd Williams, Ffordd Bangor;

Mr Dennis Dart, Rhos y Nant;

Mr Jim Ams, Glanogwen;

Mr Percy Parry, Erw Las;

Mr Emyr Griffith, Garneddwen;

Mrs Doreen Jones, Bontuchaf;

Mrs Mari Williams, Carneddi.

## Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Lynne Adams, Abercaseg, ar basio ei harholiadau yng Ngholeg Bangor.

## Cartref Newydd

Croeso i Mr a Mrs M. Lewis i'w cartref newydd yn Abercaseg.

## Marwolaeth

Ar 18 Gorffennaf bu farw Mrs Rita Owen, 10 Erw Las, priod y diweddar Mr Arfon Owen, mam a mam-yng-nghyfraith Derek a Carol a nain hoffus Amy, Mathew a Robert. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Eglwys Crist Glanogwen a mynwent Eglwys Coetmor ddydd Gwener, 27 Gorffennaf. Gwasanaethwyd gan y Parchedig John Matthews. Cydymdeimlwn â chi fel teulu i gyd yn eich profedigaeth sydyn.

Dynes dawel iawn oedd Rita yn hoff o fynd i chwarae bingo lle gwnaeth lawer o ffrindiau. Roedd yn fodryb i Susan a Christine ac yn gymydog ers iddynt symud i'w cartrefi newydd i Glyn a Hilda Campbell. Bu ei hangladd yn Eglwys Crist Glanogwen dan ofal y Ficer John Matthews.

Dymuna Derek, Carol, Amy, Robert a Mathew Owen, Birmingham, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad ddangoswyd tuag atynt. Mae Susan, Alan a Rheinallt yn diolch am y cardiau a'r holl alwadau ffôn. Casglwyd £250 tuag at yr Ymddiriedolaeth Arthritis.

Yn yr ysbyty ar 4 Awst yn 78 oed bu farw Mr Hugh Llewelyn Owen, Plas Ogwen, gynt o 14 Gernant, Braichmelyn. Brawd annwyl i Mair, Ogwenna, Rhiannon, Anona a Goronwy. Gŵr tawel a pharchus oedd Hugh ac un parod am sgwrs bob amser. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Gwener 10 Awst gyda gwasanaeth yn Amlogsgfa Bangor dan arweiniad y Parchedig Geraint S R Hughes. Cydymdeimlwn â chi fel teulu i gyd.

Ar 6 Awst bu farw Mrs Enid Jones, Plas Ogwen, yn 92 oed, gynt o Fron Bethel, Llansannan a Llanfaethlu; priod y diweddar Mr Richard Jones a mam a mam-yng-nghyfraith Ann a Dei, Ffordd Bangor; nain annwyl. Nain annwyl i Glenda, Tony a Sarah a hen nain i Nick, Morgan, Matthew, Dyfan a Gwennan. Gwraig annwyl a hoffus oedd Mrs Jones. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Gwener, 10 Awst, gyda gwasanaeth a chladdu yng Nghapel Ebenezer, Llanfaethlu. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Aneurin Owen a'r Parchedig John Owen. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

## Diolch

Dymuna Julie, Gareth a Llinos Mai, teulu'r diweddar Gavin William Bolton (Gav), Gwel-y-nant, Bryncaseg, Bethesda, ddiolch o galon i deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a chefnogaeth a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mab a brawd annwyl a dewr iawn.

Gwerthfawrogwn y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Maple Suite (Ysbyty Broadgreen, Lerpwl) Diolch i'r Parchedig John Matthews am ei wasanaeth teimladwy, i bawb a fu'n cynorthwyo ar ddiwrnod yr angladd a hefyd i Mr Stephen Jones am ei drefniadau trylwyr ac urddasol.

## Diolch

Dymuna John ac Enid Cooney, 3 Glanffrydlas ddiolch o galon am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniwyd oddi wrth deulu, ffrindiau a chymdogion ar achlysur eu priodas ruddem a gwasanaeth adnewyddu eu priodas yn Eglwys Gatholig St Richard Gwyn a St Pius X ar 25 Awst. Diolch hefyd am y wledd a gafwyd yng Nghaffi Fitzpatrick ar ôl y gwasanaeth. Gwasanaethwyd gan y Tad Adrian Morrison.

## Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i David Rees, gynt o 5 Stad Coetmor, yn dilyn llawdriniaeth i'w gefn yn Ysbyty Walton yn ddiweddar.



**Priodas**

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Geraint Edwards, Siloam, Allt Penybryn ar achlysur eu priodas yn Eglwys Crist, Glanogwen, yn ddiweddar.

**Diolch**

Dymuna Rita Lewis, Bryn Meirion, Allt Pen-y-bryn ddiolch i'r teulu a chyfeillion am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau da ar ei phen-blwydd arbennig ar 8 Gorffennaf.

**AR WERTH**

Allweddell (Keyboard)  
YAMAHA PSR 290  
Cyflwr Ardderchog  
£80.00  
Barbara Owen  
01248 600530

**Marwolaeth**

Yn Ysbyty Broadgreen wedi salwch blin bu farw'r gŵr ifanc Mr Gavin William Bolton, Gwel-y-nant, 13 Bryn Caseg yn 21 oed. Mab annwyl i Julie a Gareth a Stephen a Julia a brawd annwyl i Llinos Mai. Cynhaliwyd gwasanaeth ddydd Mercher 15 Awst yn Eglwys Crist, Glanogwen, ac Amlogfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parchedig John Matthews gyda Mrs Christine Edwards wrth yr organ. Claddwyd ei lwch gyda'i nain a'i daid ym mynwent Coetmor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu yn eich profedigaeth fawr o golli Gavin.

**Cydymdeimlo**

Yn Ysbyty Gwynedd ar 19 Mai bu farw Mrs Louisa Lloyd Johnson, Gorwel Deg, 2 Ffordd Ffrydilas yn 78 oed. Priod annwyl y diweddar Mr Dennis Ffranco Johnson a mam garedig ac annwyl i Dafydd ac Arwel a'i briod Edwina a modryb hoffus. Un o Gapel Curig oedd Mrs Johnson ond wedi cartrefu yma ers prïodi. Cof da o'r ddau yn croesawu ymwelwyr i'r Nant gyda phaned a sgwrs. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Gwener 24 Awst, gyda gwasanaeth yn Eglwys Crist, Glanogwe, a mynwent Coetmor. Y Parchedig John Matthews oedd yn gwasanaethu a chafwyd gair o goffhad gan ei chymydog Mr Owain Arwel Davies. Glain Dafydd oedd ar y delyn a Mrs Christine Edwards wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chi fel teulu i gyd.

**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau i Gareth Jones, Bryncaseg, ar lwyddo i basio ei arholiadau gyda rhagoriaeth. Bu Gareth yn dilyn cwrs dwy flynedd yn astudio Coedwigaeth a Rheolaeth Cefn Gwlad yng Ngholeg Meirion-Dwyfor, Glynllifon.

Hefyd, yn ychwanegol, cyflwynwyd Gwobr Goffa Gerallt Owain Edwards i Gareth am fod y myfywr gyda gwaith ymarferol gorau'r flwyddyn.

Teimlai Gareth ei bod yn fraint fawr iddo dderbyn y wobr, yn enwedig wrth iddo ddod â'r wobr yn ôl i Fethesda ac i ardal enedigol y ddau ohonynt ac er cof am Gerallt.

Ers i Gerallt ymadael â'r Coleg y mae wisoes wedi mynychu cwrs dringo coed ac erbyn hyn wedi pasio hwnnw hefyd. Mae Gareth yn gobeithio cael gwaith yn y maes coedwigaeth yn y dyfodol ond ar hyn o bryd y mae'n gweithio gyda'r un cwmni â'i dad.

Hoffai Gerallt ddiolch i holl diwtoriaid coleg Glynllifon am eu holl gefnogaeth tra bu yn mynychu'r coleg, a phob lwc i bawb a fydd yn dilyn y cwrs coedwigaeth yn y dyfodol.

**Capel Bethania****Oedfaon****7 Hydref**

Y Parchedig E Trefor Jones

**21 Hydref**

Y Parchedig Gwynfor Williams

Oedfaon am 5.30 o'r gloch

**Croeso Cynnes i Bawb**

**EGLWYS UNEDIG BETHESDA**

yng Nghapel Jerusalem

**Estynnir croeso cynnes i bawb i oedfaon Sul**

**Bore** Gwasanaeth ac

Ysgol Sul am 10.00


**Hwyr** Gwasanaeth am 5.00

**EGLWYS UNEDIG BETHESDA**

**'LLENW'R CWPAN'**

**Dewch am sgwrs a phaned**

**Bob bore dydd Iau rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd**

**Eglwys Crist, Glanogwen****30 mlynedd y Clochydd**

Mae pobl yr ardal hon wedi hen arfer clywed cloch Eglwys Glanogwen yn canu bob Sul, ac yn ystod yr wythnos hefyd. Ond tybed fuoch chi'n meddwl erioed, pwy oedd wrthi'n tynnu'r rhaff yn y clochdy yn gyson, boed hynny i alw pobl i'r gwasanaethau neu hyd yn oed i briodas neu angladd.

Wel, y dyn sydd wedi gwneud y gwaith pwysig yma ers mis Mai 1982 yng Nglanogwen yw Albert Humphreys, 34 Stryd Cefnfaes, ac mae'r eglwys wedi cydnabod ei wasanaeth ffyddlon mewn cyfarfod arbennig, "Sul Cerdd", a gynhaliwyd ar 24 Mehefin.

"Roedd cael y gloch fach arian hefo f'enw arni yn dipyn o syrpreis i mi," meddai Albert, a dderbyniodd hefyd gdnabyddiaeth ariannol. Mae Albert yn ddiolchgar iawn i aelodau'r Cyngor Plwyfol Eglwysig a chynulleidfa Eglwys Glanogwen am eu caredigrwydd.

A fydd Albert yn ymdeol o'r gwaith rŵan?

"Dim peryg" medda fo. "Dwi 'di cael pleser mawr am 30 mlynedd – ac mi fyddai'n cario 'mlaen i ganu'r gloch!"

**Ffarwelio â'r Ficer**

Trist iawn oedd gorfod cyhoeddi ar fore Sul ym mis Medi fod y Barchedig Nia Catrin Williams yn ein gadael yn swyddogol ddiwedd Mai, er mwyn dechrau ar ei swydd newydd yn y Gadeirlan ym Mangor ar 3 Medi.


Bydd yn golled fawr i ni yng Nglanogwen, colli ficer gweithgar a gofalus yn ogystal â ffrind annwyl i lawer ohonom yn yr ardal.

Roedd Nia yn barod iawn ei sgwrs, ei chymwynas a'i hwyl gydag unrhyw un oedd yn ei chyfarfod.

Wedi pum mlynedd i weithio â Nia, byddwn ni fel swyddogion a phlwyfolion yr eglwys yn teimlo'r golled yn fawr iawn.

Cynhaliwyd ein gwasanaeth olaf gyda Nia ar brynawn dydd Sul 27 Mai a chafwyd bwffe yn y Douglas Arms wedyn, lle cyflwynwyd amryw o roddion i Nia ar ran y gymuned.

Erbyn hyn, da yw gweld Nia adref o'i phererindod yn yr Eidal. Dymunwn bob bendith i Nia a'r teulu a'n dymuniadau gorau iddi yn ei swydd newydd.



**Gilbert Bowen – ar ran Eglwys Glanogwen**

## Yr Eglwys Unedig Gweinidog: Y Parchedig Geraint Hughes

Daeth tymor yr Haf yn swyddogol i ben er fe ymddengys mai nawr rydym am gael y tywydd braf. Ar waethaf y glaw, fe fu digon o gemau i'w gwyllo ar y teledu a'r Eisteddfod hefyd wrth gwrs – ddim cweit crystal â cherdded y maes ond diolch am y ddarpariaeth.

Fe fu nifer o'n haelodau yn cwyno dros yr haf, rhai wedi bod mewn ysbytai, rhai'n derbyn triniaethau a deallwn fod rhai ar hyn o bryd yn disgwyl eu tro i gael triniaeth. Diolchwn am weld rhai'n gwella'n dda ac ymunwn â phryder y rhai sy'n gweld pethau yn symud yn araf. Cofiw'n am gleifion sydd yn gysylltiedig â'r eglwys a gofynnwn i'w teuluoedd ddweud wrthynt ein bod yn meddwl amdanynt. Cofiw'n am y rhai mewn cartrefi henoed ac eraill yn gaeth i'w cartrefi ac yn teimlo pwysau unigrwydd.

Cydymdeimlwn â Rhiannon ac Owen John Ifans a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli Huw, brawd Rhiannon ar ôl gwaeledd hir. Cydymdeimlwn hefyd â phob teulu a fu mewn profedigaeth.

### CYHOEDDIADAU'R MIS

Medi 23	Parch Gareth Edwards
Medi 30	Y GWEINIDOG
Hydref 7	Parch Gerallt Ll. Evans
Hydref 14	Y GWEINIDOG
Hydref 21	Parch. W. R. Williams

Fe gawsom groesawu rhai ymwelwyr a oedd wedi dod adref am dro, rhai ohonynt o wledydd pell. Cawsom y fraint o longyfarch rhai o blant yr eglwys ar eu llwyddiannau yn y coleg a'r ysgol a rhai wyrion ac wyresau hefyd. Dymunwn yn dda i bawb sy'n symud ymlaen i goleg neu waith, i ysgol newydd neu ddothbarth newydd. Mae'r antur yn fawr ar bob gris.

Llongyfarchiadau i Selwyn a Brenda Owen ar ddod yn daid a nain eto. Croesawn ddau aelod newydd sef Meilir Wyn, Stryd Cefnfaes a Catrin Roberts, Llain, Carneddi. Dymunwn yn dda i Deio Emlyn, mab bach Meilir a Mari Wyn a fedyddiwyd gan y Gweinidog, dydd Sul Gorffennaf 22. Dymuniadau gorau i Nia, merch Medi Williams, a'i phriod ar eu priodas ym mis Awst.

Cofiwch bod gweithgareddau'r gaeaf yn dechrau ddiwedd y mis. Croeso i chi droi i mewn a'r un croeso i Lenwi'r Cwpan ar fore dydd Iau.

## SIALENS GARLLEG FAWR MORIARTY THOMAS



Bob blwyddyn, mae tafarn y Douglas Arms ar Stryd Fawr Bethesda yn cynnal cystadleuaeth ar gyfer pobl sy'n frwd ynglŷn â thyfu garlleg. Mae'r gystadleuaeth yn cael ei noddi gan gwmnïau Bethesda Slate a Greenough Roofing. Eleni, rhannwyd y wobwr rhwng Chris Thomas a Davy Greenough, gyda Gareth Jones yn drydydd. Treuliodd y beirniaid, Adrian Griffin, Tom Greenough a Chris Bailey-Hughes, dair awr yn blasu ac yn asesu 65 bylby garlleg o bedwar math gwahanol cyn penderfynu ar yr goreuon. Cawsom ein diddanu gan gerddoriaeth gitâr ardderchog Gareth Moriarty Owen a Dave Stephen wrth inni aros i enwau'r enillwyr gael eu cyhoeddi, a gwnaeth y cogydd Chris Bailey-Hughes lond crochan o gawl garlleg blasus i bawb. Cododd y gystadleuaeth £110 a roddwyd i elusen o ddewis yr enillwyr, sef Tŷ Gobaith Cymru. Mae'r llun yn dangos Christine Edwards, o'r Douglas yn cyflwyno'r rhodd i Tŷ Gobaith Cymru.

## Teyrnged i Taid Pesda

(Cecil Victor Morgan)

Ar Fai 22ain bu farw Cecil Victor Morgan gynt o 52 Glanogwen Bethesda yn dawel yn Ysbyty Glan Clwyd yn 92 mlwydd oed. Dyma deyrnged ei wyres, Catrin Elen Morgan, iddo.



Taid Pesda oedd o i ni. Taid arbennig iawn ymhob ystyr. Roedd e bob amser yn lân, golygus a thrwsiadus ei bryd a'i wedd. Mewn crys a thei a'i sgidia'n sgleinio'n loyw. Cymerai falchder mawr ynddo i hun. Soniai'n taid yn aml am ei bentyndod yn Gerlan. Yn unig fab a phedair chwaer ganddo i William ac Ethel Maud Morgan, colodd ei dad pan oedd yn bedair oed a bu rhaid i'w fam fagu'r teulu ei hun. Roedd hi'n glanhau Ysgol Cefnfaes ac yn cynnau tri

ar ddeg o danau bob bore cyn i'r plant gyrraedd. Gadawodd Taid yr ysgol yn bedair ar ddeg oed i weithio yn y chwarel a helpu i gynnal y teulu. Pan ddaeth y rhyfel ymunodd fel milwr â chatrawd peirianwyr Prydeinwyr y Chwarelwyr. Anfonwyd ef i Ffrainc, Gibraltar, Gogledd Affrica ac yn olaf i'r Iseldiroedd lle bu iddo wneud ffrindiau da gan gadw cysylltiad gyda theulu'r Maes hyd heddiw. Ar derfyn y rhyfel ymunodd â chwmni yswiriant Prudential lle gweithiodd hyd ei ymdeoliad yn 1981.

Rhoddodd y dyddiau yn dilyn colli Taid gyfle i ni fel teulu hel a rhannu atgofion melys amdano.

Roedd gan Taid ddawn gerddorol. Pan ddeuai Nain ac yntau draw i Branas, ar bnawn Mawrth fel rheol, roedd sŵn Taid yn chwarae emynau yn ein cyfarch ar ôl dychwelyd o'r ysgol. Cawsom groeso mawr ganddo ac roeddem yn meddwl i byd ohono.

Roedd yr eglwys yn rhan annatod ohono. Bu'n warden a thrysorydd Eglwys Glanogwen am flynyddoedd lawer. Byddai'n adrodd adnodau ar ei gof ac yn canu salmau ac emynau'n ddigyfeiliant.

Roedd Taid yn dipyn o gymeriad hefyd. Pan oedd e'n aros efo ni ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd Nain yn yr ysbyty ac es ag ef i'r ganolfan ddydd yng Nghricieth am y tro cyntaf. Roeddwn yn poeni amdano drwy'r dydd. Ond pan aeth Mam i'w nôl amser te dywedodd y cymorthyddion, "Oes raid i chi fynd â fo, Chawn ni'm ei gadw fo yma?" Dengys hyn nad oedd angen poeni amdano o gwbl. Gallai Taid ddenu sgwrs â phawb yn foneddigaidd iawn bob amser.

Yn amlwg roedd y ddawn yma'n hanfodol iddo yn ei swydd fel "the man from the Pru" fel y dywedai Taid. Dawn arall oedd ei bleser yn yr ardd. Roedd gandd Glanogwen yn werth ei gweld bob amser, yn raenus, lliwgar a thaclus dros ben.

Yn olaf hoffwn sôn am yr holl hwyl roeddem ni fel plant yn ei gael gyda Taid. Roeddem wrth ein boddau yn cael mynd i aros i Fethesda atynt. Cawsom gyfle i fynd i Fangor ar y bws deulawr a Taid yn ein cyfarfod yno, siopa, wedyn adref efo fo yn y car.

Mae gennyf sawl cof o weld Taid yn dawnsio tap yng nghegin Glan Ogwen gyda'i gap stabal ar ogwydd. Gallai neidio i'r awyr a chlicio'i sodlau.

Yn wir, roedd Glanogwen yn ganolbwynt y teulu, a braf oedd gweld y bwrdd bwyd yn llawn gyda theulu Branas, Swyn y Mynydd a Glanogwen. Roedd cinio dydd Sul yn wledd arbennig a Taid yn ei farclod yn paratoi efo Nain ar ein cyfer. Braint ac anrhydedd oedd ei gael fel taid a mawr yw'r golled ar ei ôl.

## Clwb Arch Noa Eglwys Glanogwen



Bydd Clwb Arch Noa Eglwys Glanogwen yn ail gychwyn ar 10 Medi.

Mae'r clwb ar gyfer plant dan oed ysgol ac mae'n cwrdd bob bore Llun yng nghanban Ysgol Abercaseg rhwng 9.00 a 10.30.

Mae croeso cynnes i bawb!

Dyma lun o'r plant yn mwynhau eu parti diwedd tymor. Cafodd y plant hefyd fwynhau trip ar drên stêm i Feddgelert gan wrando ar stori gan Anti Glenys (Nain Dafydd Arthur) ar hyd y daith.

# Rachub a Llanllechid

**Dilwyn Pritchard,**  
Llais Afon, 2 Bron Arfon,  
Rachub LL57 3LW  
☎ 601880

Dechrau tymor newydd wedi seibiat yr haf. Yn anffodus mae Raymond ac Ann am roi'r gorau i gasglu newyddion yr ardal. Rwy'n siŵr yr hoffech ymuno â mi i ddiolch iddynt am y gwaith a wnaethant dros nifer o flynyddoedd, gwaith di-ddiolch ar adegau. Os ydych eisiau tynnu sylw at ddigwyddiadau yn Rachub a Llanllechid byddaf yn derbyn y newyddion ond dim ond newyddion y caf wybod amdano ar bapur fydd yn ymddangos. Mae'n amhosib gwybod am bopeth sy'n digwydd, felly diolch am eich cydweithrediad.

## Cofion

Anfonwn ein cofion at nifer o drigolion sydd wedi bod yn sâl dros yr haf, yn eu plith Mrs Bowen Rees, Sgwâr Rachub; Wyn Davies, Bronnydd; Gwyneth Jones, Stryd Fawr; Mrs Augusta Williams, Bron Arfon; a Ken Davies, Maes Bleddyn. Ein dymuniadau gorau am wellhad buan iddynt.

## Diolch

Dymuna Augusta Williams, 7 Bron Arfon, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd tuag ati yn dilyn derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

## Llongyfarchiadau

i Gwydion Rhys, Bron Arfon ar lwyddo yn ei arholiad Gradd 2 piano a soddgrwth ddechrau'r haf. Da iawn ti Gwydion!

## Pen-blwydd

Dymuniadau gorau i Susan Murphy, Bron Bethel, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 70 mlwydd oed yn ddiweddar.

## Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Carole ac Alun Owen, Bron Bethel, ar achlysur trist marwolaeth mam Carole, Mrs McLaughlin, Lôn Groes.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Iris a Vernon Davies ar achlysur trist marwolaeth Gavin Bolton, Bethesda, Bu Gavin, a oedd yn un ar hugain oed, yn brwydro afiechyd Cystic Fibrosis yn ddewr am flynyddoedd. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu oll yn eu profedigaeth.

## Llongyfarchiadau

i Donna a Siôn, Maes Bleddyn ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

## Priodas Berl

Llongyfarchiadau mawr i Karen a Tom Williams, Hen Barc, oedd yn

dathlu eu Priodas Berl ym mis Gorffennaf. Cariad mawr oddi wrth Ceri, Lee, Stephen, Elen a'r teulu i gyd.

## Diolch

Hoffai Judith Kaufmann, Stryd Fawr, Rachub, ddiolch i bawb am eu cardiau a'u blodau, yr ymweliadau, y cydymdeimlo a phob cymorth ar adeg anodd.

## Priodas Ruddem

Dymuna Ann a Selwyn, Bron Arfon, ddiolch o galon i'w teulu a ffrindiau am eu caredigrwydd ar achlysur dathlu eu priodas ruddem yn ystod mis Gorffennaf. Diolch yn fawr iawn i bawb.

## Taith Gerdded Lwyddiannus

Daeth criw da at ei gilydd unwaith eto eleni i gymryd rhan yn y daith gerdded noddedig o Lyn Ogwen i lawr yr hen ffordd cyn gorffen yn y Cae Rygbi, taith a drefnwyd gan Raymond ac Ann Tugwell. Yn ffodus iawn, mewn haf digon gwlyb, roedd y tywydd yn ffafriol am unwaith. Roedd y plant wrth eu boddau yn y bws deulawr a aeth â nhw at Lyn Ogwen. Paratowyd y picnic arferol gan Ann a chydya help a chaniatâd Anti Doris fe fwynhawyd y pryd yn Fferm Maes Caradog.

Gwnaed elw o £2,262.70 ac fe rannwyd yr arian fel â ganlyn:

£1000 yr un i CLIC (Canser a Lewcaemia mewn Plentynod) Ysbyty Gwynedd a NYAS (Hawliau Plant Cymru) a £262.70 i Mali Parry-Owen ar gyfer ei thait wifoddol i Hondwas.

Hoffai Ann a Raymond ddiolch i'r canlynol: Bws Padarn am gludo pawb at Lyn Ogwen, Popty Cae'r Groes am wneud brechdannau, Jonathan (Londis) am y diod a'r creision a hefyd am gasglu cymaint o arian, Anti Doris Maes Caradog am ei haelioni tuag at bawb a gerddodd ar y daith, a nifer fawr o noddwyr. Ymlaen at y daith nesaf rwan.

## Pob Hwyl

i nifer o blant a phobl ifanc sydd wedi llwyddo mewn arholiadau yn yr Ysgol a'r colegau y llynedd. Dymuniadau gorau i nifer sydd yn newid ysgol neu yn dechrau gwaith neu gwrs coleg.

## CYFARFOD BLYNYDDOL CANOLFAN RACHUB

### NOS FERCHER 10 HYDREF

yn y Ganolfan

Am 7.30 yr hwyr

Croeso i bawb.

## Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanllechid yn cynnal

### Ffair Hydref yn Ysgol Llanllechid

11am – 3pm Ddydd Sadwrn, 29 Medi

Adloniant, stondinau, gemau, bwyd a digon o hwyl i'r teulu cyfan  
Mynediad: £1 i oedolion; plant am ddim  
Croeso cynnes i bawb

(Manylion pellach: Iona Robertson: 602658/07747 778577  
neu iona.robertson@tesco.net)

## Capel Carmel

Yn ystod ein hoedfa hwyrrol ar Fedi'r Ail. cafodd chwech o bobl ofanc Carmel ei derbyn yn gyflawn aelodau o Eglwys Iesu Grist. Derbyniwyd y chwech i blith ein cynulleidfa yma mewn gwasanaeth hyfryd iawn o dan arweiniad win gweinidog, y Parchedig Geraint Hughes. Rhoddwyd Beibl i bob un o'r aelodau newydd a gwahoddwyd pawb i gyfronogi o'r Cymun. Bu'r chwech aelod newydd i gyd yn ffyddlon i wethgareddau'r capel yn eu tro a'r rhan fwyaf ohonynt yn aelodau o'r Clwb Dwylo Prysus.



Siân, Erin a Llinos Bryn, Siân Mererid ac Alwyn. Dyma'r aelodau newydd gyda'r Gweinidog (Mari Gwyn ddim yn y llun)

Carmel, Llanllechid

## Te Bach

24 Medi  
2.30 i 4.00 o'r gloch.

Croeso cynnes i bawb.

## CAPEL BETHEL Gwasanaethau

### Mis Medi

23 Mr Dafydd Iwan  
30 Parch. Eleri Lloyd Jones

### Mis Hydref

07 Parch. John Pritchard  
14 Gweinidog  
21 Parch Huw Pritchard

Oedfaon am 2.00 o'r gloch.

Croeso cynnes i bawb.

## CAPEL CARMEL Gwasanaethau

### Mis Medi

23 Y Gweinidog 2.00 a 5.00  
30 Parch. J L Jones 5.00

### Mis Hydref

07 Y Gweinidog 2.00 a 5.00  
14 Diolchgarwch  
21 Y Parch T Roberts 2.00

Yr Ysgol Sul 10.30 y bore  
Dwylo Prysus, nos Wener 6.30

Croeso Cynnes i Bawb

## Carneddi

**Derfel Roberts,**  
Ffordd Carneddi, Bethesda  
☎ 600965

### Pen-blwydd

Bu cryn baratoi yn 50 Ffordd Carneddi ym mis Awst wrth i Allan Jones gyrraedd carreg filltir arbennig o ran oedran. Llwyddodd Eryl a Hayley i drefnu parti iddo yn y Sior heb iddo amau dim a chafwyd noson o ddathlu a sbort garw yng nghwmni teulu a ffrindiau. Hoffai Allan ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion hael. 'Dawn ni ddim i fanylu ar ei oedran ond mae'n siwr y gwelwch chi o'n aml 'rwan yn teithio ar y bysus efo'i bass newydd sbon!

### Graddio



Llongyfarchiadau i Elen Williams, merch Glenys ac Eilir Williams, Tyn Llwyn, Llanddona ar raddio o Goleg Prifysgol Bangor a wyres i Sally a'r diweddar Emyr Parry, Ffarm Cilfodan. Llongyfarchiadau gan y teulu i gyd.

### Diolch

Hoffai Lee a Ceri Wyn Evans ddiolch o galon i bawb am eu cyfarchion a'r anrhegion caredig a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu priodas ym mis Awst. Diolch i bawb am wneud y diwrnod yn un mor arbennig a bythgofiadwy.



Lee a Ceri Wyn Evans, Cae Clochyd, a briodwyd yng Ngwesty'r Victoria yn Llanberis ar 4 Awst 2012

### Meithrinfa Ogwen Cyf.

Gyda gwyliau'r haf drosodd a ninnau wedi ffarwelio â rhai o'r plantos wrth iddynt droi am yr ysgol gynradd, gawn ni groesawu'r plant newydd unwaith eto.

Mae Anti Julie Montgomery wedi'n gadael ac yn dechrau swydd newydd yn Llanfairfechan.

Yn ystod yr wythnosau olymпаidd fe gafodd ein plant ninnau hefyd flas ar fwydydd o wahanol wledydd a chwarae nifer o chwaraeon olymпаidd.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn dod â phlentyn i'r feithrinfa, cysylltwch â ni ar 01248 605555.

## Gerlan

**Ann a Dafydd Fôn Williams,**  
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan  
☎ 601583

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Richard a Jên Temple Morris, Tan y Garth, ar enedigaeth merch fach, Margiad Ann, chwaer fach i Ieuan, Ceri, Ithel, Idwal, ac Idris John. Pob dymuniad da i chi fel teulu!

### Symud cartref

Ym mis Awst gadawodd Arwel, Angie ac Aran o 6 Tan Treflys yr ardal a symud i'w cartref newydd yn Rhuthun. Buasai'r tri'n hoffi diolch i'w cymdogion i gyd am eu cyfeillgarwch cynnes a'u cymorth parod yn ystod y saith mlynedd diwethaf.

### Cartref newydd

Croeso i Tan Treflys i Sion Jones o Dregarth, a'i gymar, Kirsty Roberts, o Niwbwrch, Sir Fôn. Pob hwyl i'r ddau ohonoch yn eich cartref newydd. Braf yw croesawu Sion yn ôl i bentref genedigol ei dad, Meurig Jones, a fagwyd yn Stryd Goronwy. Gobeithio y bydd y ddau ohonoch yn hapus iawn yn ein plith.

### Profedigaeth

Rydym yn cydymdeimlo gyda Val Hanks, Tan Treflys, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, y diweddar Ronald Williams, oedd yn trigo yn Niwbwrch.

### Swydd newydd

Llongyfarchiadau i Elen Williams, Ciltrefnus, ar ei phenodiad yn Gogyddes Ysgol Dyffryn Ogwen, ac sydd wedi cychwyn ei swydd newydd yn bwydo'r bobl ifainc newynog yno ddechrau Medi. Bu Elen yn gogyddes am sawl blwyddyn yn Ysgol Abercaseg. Dymunwn bob llwyddiant ichi yn eich cegin a'ch ffretur newydd, Elen!

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Medwyn a Mari Owen, Rallt Uchaf, ar enedigaeth merch fach, Lowri Wyn, chwaer fach i Aled Wyn. Mae pawb wedi gwirioni efo'r fechan. Pob hwyl i chi fel teulu.

### Dathlu'r 18

Rydym yn gyrru ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i ddau o bobl ifanc yr ardal a ddathlodd eu pen-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar. Yn Awst y dathlodd Paul Williams, Stryd Goronwy, ei ben-blwydd ef, tra dathlodd Paula Williams, Ffordd Gerlan, ei phen-blwydd hi ddechrau Medi. Rydym yn dymuno'r gorau i'r ddau ohonoch i'r dyfodol.

### Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo gyda Bob a Karen Doyle, a'r teulu, Tyddyn Du, yn eu profedigaeth o golli nain Bob, y ddiweddar Mary Doyle, gynt o Rachub, a'u profedigaeth ychwanegol o golli ewythr Bob, y diweddar Huw Owen, Gernant, Braichmelyn.

### Priodas

Llongyfarchiadau mawr i Kerry a David, Stryd Goronwy, ar eu priodas yn Eglwys Glanogwen ddechrau Medi. Maent bellach ar Ynys Corfu yng Ngwlad Groeg, yn dathlu'r achlysur gyda'r teulu. Rydym yn dymuno'r gorau i chi i'r dyfodol.

### Cartref Newydd

Rydym yn croesawu Richard Ogwen, Rhian, a'r plant i'w cartref newydd, Yr Ardd Fawr, Groeslon Gerlan. Dod yn ei ôl adref mae Richard Ogwen, gan iddo gael ei fagu yn Waun Gwiail, ond symudodd ymhell iawn o'r ardal am flynyddoedd – i Hen Barc draw – cyn codi tŷ newydd yma, a dychwelyd. Pob hwyl ichi yn eich cartref newydd.

### Croeso

Croeso mawr i Arwyn a Lowri, a Wali'r ci, i'w cartref newydd yng Nghiltrefnus. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

### Cofion

Rydym yn gyrru ein cofion at Robin ac Ann Hughes, Freithwen Isaf, gan nad yw'r ddau wedi bod yn dda iawn eu hiechyd yn ddiweddar. Rydym yn gobeithio eich bod eich dau yn gwella erbyn

hyn. Yn ogystal rydym yn cydymdeimlo gyda Robin ac Ann yn eu profedigaeth o golli modryb Robin, y ddiweddar Bet Hughes, o Rachub.

### Brysiwch wella!

Rydym yn gyrru ein cofion at Steve Fisher, Stryd y Ffynnon, sydd heb fod yn dda yn ddiweddar, ac wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Rydym yn gyrru ein cofion atoch, ac yn dymuno adferiad buan i chi.

### Dymuniadau gorau

Rydym yn llongyfarch pawb o bobl ifanc yr ardal a fu'n llwyddiannus yn eu gwahanol arholiadau yr haf hwn, ac yn dymuno'r gorau i bob un ohonynt yn y dyfodol. Dymuniadau gorau, hefyd, i bawb sy'n cychwyn mewn ysgol, neu goleg, am y tro cyntaf. Pob hwyl i chi i gyd!

## Llandygái

**Ethel Davies, Pennard,**  
Llandygái ☎ 353886

### Profedigaeth

Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys â Dei ac Eirlys Edwards yn eu profedigaeth o golli merch, Carys Wyn Houghoughi, 30 Strand Street, Bangor ar 31 Gorffennaf a hithau ond yn 54 mlwydd oed. Cynhaliwyd yr angladd yn y Gadeirlan, Bangor, ar 4 Awst ac yna yn Amlogfa Bangor lle daeth nifer fawr ynghyd i dalu'r deyrnged olaf iddi. Bendith Duw ar ei gŵr Ali a'i phlant Paul, Portia, David a Jen.

Trist iawn yw ofnodi marwolaeth Mrs Gwenllian Morsley, Tŷ'r Ysgol, Llandygái, yn dawl yn Ysbyty Gwynedd ar 10 Awst yn 82 mlwydd oed. Roedd yn briod ffyddlon i'r diweddar Dekie, yn fam garedig i Richard ac Anne, Robert a Mandy a nain falch i Rebecca, Daniel, Toby a Hatty a hen nain i Jasmine, Les a Nathan. Cynhaliwyd yr angladd cyhoeddus yn Amlogfa Bangor ddydd Mawrth, 21 Awst. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth chwerw. Bydd colled i drigolion y pentref ar ôl Gwen – roedd yn wraig mor annwyl ac wrth ei bodd yn ymuno â'r holl weithgareddau a gynhelid yn Neuadd Talgai.

### Adref o'r Ysbyty

Braf iawn oedd cael gweld Mrs Jill Bullen a Mrs Laura Lewis wedi dod adref o'r ysbyty ar ôl cael llawdriniaeth yn ddiweddar. Croeso adrefhefyd i Dr Pam Jones o Ysbyty Gobowen ar ôl ei llawdriniaeth yno yn ystod mis Awst.

Mae Mrs Lytham adref o'r ysbyty hefyd ac yn gwella ar ôl iddi syrthio yn y tŷ. Cymerwch bethau'n ysgafn am ychydig – rydym yn falch iawn eich bod yn gwella.



**Y Cleifion**

Anfonwn ein cofion cynnes at Ernie a Nerys Coleman, Jim a Beryl Hughes, Betty Williams a Dorothy Proudley Williams – brysiwch wella!

**Cartref Newydd**

Dymuniadau gorau i David a Laura Lewis sydd wedi mynd i fyw i Lanfairfechan yn ystod mis Awst. Bydd Emma y ferch a'r teulu yn falch o weld Taid a Nain wedi dod i fyw yn yr un pentref ac yn gallu rhoi help llaw fel y bo'r angen.

**Bingo**

Diolch i Pauline a Raymond am drefnu noson Bingo yn Neuadd Talgai ar nos Fawrth, 17 Gorffennaf. Gwnaethpwyd elw o £65 i'r neuadd. Diolch yn fawr i ferched y baned ac i bawb a oedd yn bresennol.

**Llwyddiant Addysgol**

Llongyfarchiadau i Rees Evans, Penrhyn Cottage, ac Abraham Sellers, 11 Pentre Llandygái ar lwyddo yn eu harholiadau Lefel Uwch ym mis Awst eleni. Bydd Rees yn mynd i Gasnewydd i astudio cwrs cynhyrchu ffilmiau. Mae Abraham wedi mynd i Derby i fod yn brentis uwch gyda chwmmi Rolls Royce. Pob lwc i chi fechgyn; daliwch ati i wneud eich gorau, fydd dim edifar gennyh.

**Eglwys Sant Tegai****Priodas**

Llongyfarchiadau i Ffion a Wayne ar achlysur eu priodas yn Eglwys Sant Tegai ar 27 Gorffennaf. Dymunwn hir oes a phob hapusrwydd i'r ddau.

**Dathlu Priodas Aur**

Llongyfarchiadau i Ceri a Gwyn Edwards ar ddathlu eu priodas aur ar 25 Awst. Hoffem ddymuno blynyddoedd o hapusrwydd iddynt hwy a'r teulu yn y dyfodol.

**Pen-blwydd**

Llongyfarchiadau i'r Parchedig J Aelwyn Roberts, Haulfre ar ddathlu ei ben-blwydd ar 27 Awst. Gobeithio i chi a'r teulu fwynhau'r achlysur hapus, Mr Roberts.

**Diolch**

Diolch i Richard Douglas Pennat, Roland a Stuart am drefnu noson o farddoniaeth a chân yn Eglwys Sant Tegai ar nos Sul 15 Gorffennaf. Codwyd £255 i gronfa'r eglwys.

**Bedydd**

Ar fore Sul 29 Gorffennaf yng Ngwasanaeth y Cymun Bendigaid bedyddwyd Jacob, mab bach Tina a Jamie, ŵyr i Liz a Merfyn Jones, 21 Pentre Llandygái. Y Parchedig John Matthews oedd yn arwain y gwasanaeth a Mr Geraint Gill wrth yr organ.

Roedd y tair eglwys wedi dod ynghyd ac felly roedd y canu yn dda iawn a Jacob yn mwynhau ei hun yn gwenu ar bawb.

Ar fore Sul 12 Awst roeddem yn croesawu teulu Rhys y tro hwn, mab bach Bethan a David Hughes a brawd bach i Lowri. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Parchedig John Matthews a'r organydd oedd Mr Geraint Gill. Mae Rhys yn ŵyr i'r diweddar Elwyn a Dilys Jones, Crud yr Awel, Bryn, Llandygái gynt, dau a fu'n weithgar a ffyddlon i'r eglwys am flynyddoedd maith.

**Bore Coffi**

Diolch o galon i Hefina am groesawu pawb i'n Bore Coffi yn y 'Berllan' ar fore Sadwrn, 14 Gorffennaf. Cawsom fore braf ac roedd yn bleser cael eistedd yn yr ardd a achel shwrs â hen ffrindiau. Gwnaed elw o £440 tuag at yr eglwys – diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd.

**Ffair Haf**

Ar ddydd Sadwrn 28 Gorffennaf cynhaliwyd Garddwest yn y Ficerdy, Pentir, a bu llwyddiant mawr eleni eto. Gwnaed elw o £1200 rhwng y tair eglwys. Diolch i John a Sue Matthews am eu croeso ac i bawb a roddodd help llaw, heb anghofio'r trefnwyr wrth gwrs. Buasem wedi hoffi cael tywydd mwy sych ond fe ddaeth nifer dda yno er gwaethaf y glaw.

**Brenda a Gareth Hughes**

Rydym i gyd yn meddwl am Brenda a Gareth Hughes ar ôl i dân ddinistrio eu cartref a llosgi eu heiddo i gyd. Ond diolch fod ganddynt ffrindiau – mae pawb wedi mynd ati i'w helpu i aildechrau a chael trefn ar eu cartref newydd. Roedd Brenda yn bendant iawn pan ddywedodd nad oedd hi wedi colli ei ffydd. Bendith Duw a fo ar y ddau.

**Gwaeledd**

Anfonwn ein cofion anwylaf at Mrs Jane Couch, Mrs Beryl Edwards, Mr Gwynne Edwards, Harry Gross a Mrs Liz Jones. Dymunwn adferiad buan i chi i gyd.

**Barbeciw**

Diolch o galon i'r Parchedig John Matthews ac aelodau caredig Maes y Groes am eu croeso cynnes i'r barbeciw prynhawn Sadwrn, y cyntaf o Fedi. Roedd y bwyd yn ardderchog a'r gwmniâeth yn hwyliog iawn.

Y dynion oedd yn coginio y tro hwn a'r gwragedd yn helpu – rhaid i Dudley fod yn ofalus iawn neu bydd yn colli ei swydd! Bu Nerys yn lwcus iawn – hi a enillodd y raffl, sef darn o borc a photel o win gwyn.

**Braichmelyn**

**Rhiannon Efans,**  
Glanaber, Pant, Bethesda ☐  
☎ 600689

**Gwellhad**

Rydym yn falch o weld Robin Roberts wedi gwella ac o gwmpas ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Mae Mrs Gwyneth Parry, Bryn y Coed wedi dathlu pen-blwydd arbennig. Llongyfarchiadau iddi. Fe hoffai Gwyneth ddiolch i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar yr achlysur hapus.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Gethin Jeffries, Llangoed, Nantgraean a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli Gavin eu nai yn ddiweddar.

**Symud Tŷ**

Dymuniadau gorau i Miss Nancy Hughes a Gerallt, Llys Menai, yn eu cartref newydd yn Llangejni.

Mae Peter Williams wedi ymgartrefu yn Llys Menai. Gobeithio y byddwch chi'n hapus yno, Peter.

**Ymdeol**

Hoffai Helen Williams, Siop Trin Gwallt Penigamp, ddiolch o waelod calon i'w chwsmeriaid ffyddlon am eu cefnogaeth a'u caredigrwydd dros y ddeng mlynedd ddiwethaf. Mae Helen wedi penderfynu rhoi'r siswrn i gadw wedi 45 o flynyddoedd o drin gwallt. Hoffai hefyd ddymuno pob lwc i Catrin Haf, y perchennog newydd, wrth iddi gychwyn ar ei gyrfa.

Dymuniadau gorau i'r plant i gyd ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd – rhai'n dechrau yn Ysgol Abercaseg, eraill ym Mhen-y-bryn a Dyffryn Ogwen.

**Profedigaeth**

Ar 4 Awst 2012 bu farw Hugh Llewelyn Owen, 14 Gernant, yn 78 mlwydd oed. Bu byw Hugh yn y tŷ hwn am dros 70 o flynyddoedd – o'r cychwyn pan symudodd amryw deulu i Gernant o Gae Star yn y 1930au. Ffurfiodd y teuluoedd hyn gymdeithas agos a chyfeillgar ym Mraichmelyn, ond Hugh oedd yr olaf, fwy neu lai, o'r plant a anwyd i'r genhedlaeth honno ac nid oes yma mwyach yn byw ond tri disgynnydd o'r teuluoedd hynny. Bydd colled ar ei ôl.

Cyflwynwyd y swm o £180 i gartref henoed Plas Ogwen, sef y rhoddion ariannol a dderbyniodd y teulu er cof am Hugh, a'i ddymuniad olaf oedd eu cyflwyno i'r cartref gan gymaint o feddwl oedd ganddo am eu caredigrwydd a'r gofal a dderbyniodd tra bu'n byw yno. Diolcha'r teulu i bawb am eu caredigrwydd a'u haelioni

**Nant  
Ffrancon****Cneifiwr o fri**

Llongyfarchiadau i Elfed Jackson, Braich Tŷ Du ar ei llwyddiant eto mewn nifer o gystadlaethau cneifio o amgylch y wlad.

Mae wedi teithio llawer eleni - wedi bod yn yr Alban, Iwerddon, Lloegr a Seland Newydd. Mae Elfed wedi bod yn aelod o dîm Cymru ers 1998 a bu eto eleni yn llwyddiannus pan enillodd yn y Sioe Frenhinol a Chylch Cneifio Cymru yng Nghorwen.

Da iawn a llongyfarchiadau iti Elfed.

**Capel Nant y  
Benglog****Gwasanaethau**

30 Medi: Parch. Hugh John Hughes.  
07 Hydref: Parch. Ddr. Elwyn Richards.  
14 Hydref: Mr. Arwel Roberts.  
21 Hydref: Parch. Dafydd Wyn Wiliam.  
28 Hydref: I'w gyhoeddi.

Oedfaon am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

**Oedfaon am 2.00 .  
Croeso cynnes i bawb.**

**Pentir**

**Anwen Thomas,**  
Min yr afon  
11 Rhydygroes, Pentir  
☎ 01248 355686

Yn anffodus ni chafwyd newyddion Pentir y mis hwn gan fod Anwen yn yr ysbyty. Pob dymuniad da iddi am wellhad buan. Os oes gennyh unrhyw newyddion ar gyfer y rhfyn nesaf mae croeso i chi eu hanfon at Olygydd y Mis, Fiona Cadwaladr Owen. Mae'r manylion cyswllt a'r dyddiad cau ar dudalen 2, colofn 1.

Gallai eich hysbyseb  
**Chi**  
fod yma  
Cysylltwch â  
Neville Hughes 600853

**LONDIS  
BETHESDA**  
☎ 01248 605566  
Archfarchnad hwylus  
Gwasanaeth personol  
gyda'r pwyslais ar y cwsmer  
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy  
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr  
7 diwrnod yr wythnos

**JOHN ROBERTS**  
Paentiwr  
Papurwr  
Teilsiw  
  
Symudol: 07747 628650  
Ffôn: 01248 600995

Gorsaf betrol  
**B E R A N**  
Deiniolen  
Ffôn: Llanberis 871521  
Ar agor bob dydd 24/7  
Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo  
Cylchgronau • Papurau newydd  
Cardiau pen-blwydd • Melysion  
Tocynnau loteri  
Gwasanaeth PAYPOINT ar gyfer  
trydan, nwy, ffonau symudol,  
trwyddedau teledu ayyb

**Gareth Williams**  
Trefnydd Angladdau  
Crud yr Awel  
1 Ffordd Garneddwen  
Bethesda  
Ffôn: (01248) 600763 a 602707  
GWASANAETH DYDD A NOS

**CAFFI SEREN**  
BETHESDA  
Ffon: 01248 600661  
Oriau agor  
Llun i Gwener: 8.00 tan 4.00  
Dydd Sadwrn: 8.00 tan 1.00  
**BWYD CARTREF**  
Pryd arbennig (Special) bob dydd  
Cinio rhost bob dydd Gwener  
Bwyd i'w fwyta allan  
Croeso cynnes gan Sue a'r staff

Pob math o waith trydanol  
**Huw Jones**  
Ymgwymerwr Trydanol  
Trydanwr cymwysedig gyda  
phrofiad diwydiannol  
Y Wern, Gerlan, Bethesda  
Gwynedd LL57 3ST  
Ffôn: 01248 602480

**Y Douglas Arms**  
\* Lluniaeth i Bartion \* Te Cynhebrwng \*  
\* Gardd Gwrw \* Te a Choffi \*  
Oriau Agor  
Llun - Gwener: 6.00 - 11.00  
Sadwrn: 3.30 - 12.00  
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 - 11.00  
01248 600219  
www.douglas-arms-bethesda  
Cewch groeso cynnes gan  
Gwyn, Christine a Geoffrey

**STEPHEN  
JONES**  
†  
**TREFNYDD  
ANGLADDAU**

Hefyd ymgymryd  
â gwaith cerrig beddi:  
adnewyddu neu o'r newydd  
Gweithdy Pen-y-bryn  
Cefn-y-bryn, Bethesda  
Ffôn: gweithdy 600455  
gartref 602455  
personol 07770 265976  
Bangor 360001  
Gwasanaeth personol ddydd a nos

**BYSUS**  
*D. J. Owens*  
RHIWLAS  
01248 361044 a 07771 634195  
  
BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER  
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -  
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTIÖN AC ATI.  
**Bysus Gwydd Rhiwlas**  
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY  
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

**C.L. JONES**  
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu  
Bethesda 01248 600045 Cludiant am ddim yn lleol Mynytho 01758 730768  
Caernarfon 01286 676070 Stoc helaeth ac amrywiol LLanrwst 01492 640794  
Llangefni 01248 751677 Croeso i gyfrifon masnachol Siop yn 01492 640794  
Staff cyfeillgar a phroffesiynol Llanrwst  
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y  
Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

# Talybont

**Neville Hughes,**  
14 Pant, Bethesda  
☎ 600853

## Eglwys Maes y Groes

Cynhaliwyd te mefus yn yr Ysgoldy ar nos Fercher y 13eg o'r mis. Diolch i Phyllis Davies am drefnu'r noson lwyddiannus. Hoffem ddiolch hefyd i bawb am eu cefnogaeth, am y gwobrau i'r raffl, a'u rhoddion. Gwnaed elw o £640 at yr Eglwys.

Llongyfarchiadau i Clare Davies ac Andrew Butterfield ar achlysur eu priodas yn yr Eglwys ar 16 Mehefin. Gweinyddwyd gan ein ficer y Parchedig John Mathews a'r organydd oedd Geraint Gill. Dymunwn bob hapusrwydd i'r cwplw ifanc yn eu bywyd priodasol.

Yn ystod y mis bu Hefina Watts ar fordaith i Canada ac Alaska i ddathlu pen-blwydd arbennig. Yn ôl pob golwg roedd wedi mwynhau ei hun yn fawr iawn.

Croeso gartref i Meirion a'r teulu o Dde'r Affrig. Treuliodd wyliau gyda'i fam Mrs Gracie Griffiths yn Llwyn y Wern.

Drwg oedd gennym glywed fod Sheila Owen, Mill Bank wedi treulio rhai dyddiau yn Ysbyty Gwynedd ond mae hi bellach wedi gwella'n ddigon da i gael dod adref.

Llongyfarchiadau i June ac Alan Hughes, 1, Bro Emrys ar ddathlu priodas aur yng nghwmni eu teulu a'u ffrindiau yn eu cartref ar ddydd olaf y mis. Yn ôl eu dymuniad roeddynt yn derbyn rhoddion at elusen Ymchwil Cancr a Tŷ Gobaith Conwy yn hytrach nag anrhegion. Gwnaed elw o £260. Hoffai June ac Alan ddiolch i bawb am eu rhoddion hael.

## Capel Bethlehem, Talybont

### Apêl am Luniau

A oes gennych chi unrhyw luniau (hen neu ddiweddar) o ddigwyddiadau yng Nghapel Bethlehem?

Os oes, tybed fydddech chi'n fodlon rhoi eu benthg ar gyfer eu cynnwys mewn arddangosfa i ddathlu'r 150 mlwyddiant. Hefyd unrhyw hen bapurau neu ddogfennau

**Cysylltwch â  
Neville Hughes ar  
01248 600853**

### Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Mrs. Augusta Williams, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae'n dda gweld Mrs. Dorothy Proudley Williams yn ôl yn dilyn ei chodwm yn ddiweddar.

### Bore Coffi

Cynhelir Bore Coffi yn Neuadd Ogwen, ar Sadwrn, 6 Hydref, am 10 o'r gloch. Bydd yr elw yn mynd tuag at gostau atgyweirio a phaentio'r capel yn ogystal â tharmacio'r llwybr i'r festri. Byddem yn ddiolchgar am bob cefnogaeth.

### Gwasanaethau

**Medi**  
23 Y Parchedig Gareth Edwards,  
Cyffordd Llandudno ;  
30 Y Gweinidog ;

**Hydref**  
7 Y Parchedig Trefor Jones, C'fon ;  
14 Gweinidog.

**Oedfaon am 2.00 .  
Croeso cynnes i bawb.**

## Dathlu'r 150 mlynedd



Mae'r gwaith paratoi ar gyfer dathlu 150 mlwyddiant adeilad presennol Capel Bethlehem yn mynd rhagddo'n foddhaol.

Diwrnod y Dathlu yw dydd Mercher, 17 Hydref, pan gynhelir Oedfa'r Dathlu am 4.30 gyda'r Parchedig Ddr. Geraint Tudur, B.D., Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn pregethu. Yna, am 6.30 cynhelir y Cyfarfod Dathlu yng nghwmni nifer o gyfeillion y Capel. (Ceir rhagor o fanylion yn y rhaglen swyddogol.) Trefnir lluniaeth yn y festri rhwng y ddau gyfarfod. Bydd croeso cynnes i bawb ymuno â ni yn y dathlu.

Gobeithir trefnu arddangosfa o luniau yn y festri yn ogystal â chyhoeddi llyfryn o Hanes yr Achos ym Methlehem o'r cychwyn.

## Miri Haf Talybont



Roedd y cae chwarae ar Sadwrn, 11 Awst, yn lle bywiog a llawn miri. Yr achlysur oedd Diwrnod Miri Haf Talybont a drefnwyd gan Grŵp Cymunedol Talybont. Roedd yno ddigon o fwyd a diod i bawb, stondinau a digon o bethau i gadw'r plant a'r rhieni'n brysur.



## Contractwyr Trydanol

### Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig  
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257  
Ffacs: 01248 601982

E-bost: [info@jonesandwhitehead.co.uk](mailto:info@jonesandwhitehead.co.uk)



# Tregarth

**Gwenda Davies,**  
Cae Glas,  
8 Tal y Cae, Tregarth  
☎ 601062

**Olwen Hills (Anti Olwen),**  
4 Bro Syr Ifor, Tregarth  
☎ 600192

## Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau i Ena Morris Jones, Tal y Cae, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 80 ar Orffennaf 20. Pob dymuniad da Ena gan y teulu, y cymdogion a'ch holl ffrindiau.

## Llwyddiant cerddorol

Llwyddodd Elin Kervegant, Tan Dderwen, yn ei arholiad soddgrwth, Gradd 8, gydag anrhydedd. Ardderchog Elin.

## Genedigaeth

Ganed merch fach i Doctor Nia a Doctor Mike Hughes, Caernarfon, sef Elain, chwaer fach i Osian, ar Fehefin 2il. Mae Nia yn ferch i Minnie Lewis, Porthaethwy a'r diweddar Maldwyn Hughes, ac arferent fyw yn Tal y Cae, Tregarth. Llongyfarchiadau i chi fel teulu ar enedigaeth Elain.

Llongyfarchiadau hefyd i Stephen Jones, Dob a'i briod ar enedigaeth mab bach.

## Miri Mehefin 2012

Cynhaliwyd Miri Mehefin, sef Cymanfa'r Ysgolion Sul yn Shiloh eleni ar bnawn Sul, Mehefin 24. Yr arweinydd cerdd oedd Owain Arwel Davies, Bethesda, sef arweinydd Côr y Penrhyn a'r cyfeilydd oedd D. Wyn Williams, Tregarth. Cafwyd gwasanaeth hwyliog a graenus dros ben a phawb oedd yno wedi mwynhau yr awyrgylch arbennig oedd yn y capel. Braff oedd gweld cynulleidfafa deilwng. Yn ystod y pnawn rhannwyd tystysgrifau a medalau i aelodau Ysgolion Sul Bosra, Penisarwaun; Pïsgah, Rhiwlas; Ebeneser, Caernarfon a Shiloh, Tregarth. Roedd y rhannau dechreuol yng ngofal Ysgol Sul Bosra a gwnaethant eu gwaith yn ardderchog. Roedd eu canu yn wefreiddiol a diolchwyd iddynt ac i bawb fu'n rhan o'r trefniadau gan y Parchedig Gwynfor Williams. Roedd y mwynhad i'w deimlo yn y canu gwerth chweil dan arweiniad medrus Arwel a Wyn y cyfeilydd. Canwyd emynau o 'Caneuon Ffydd', 'Dewch i Ddathlu' a 'Chlap a Chân i Dduw'. Yn dilyn y Miri roedd Te Parti blasus wedi'i baratoi gan rieni Ysgol Sul Shiloh. Roedd yn bnawn cofiadwy, llawn brwdfrydedd a llawenydd. Braint oedd cael bod yn rhan o'r digwyddiad.

## Damwain ar y maes golff

Fe syrthiodd Vivian Williams, 2 Cerrig Llwydion, tra'n chwarae golff yng Nghlwb Golff

Llanfairfechan a bu'n rhaid ei gludo mewn ambiwlans awyr i Ysbyty Gwynedd ar Orffennaf 8. Roedd wedi torri ei ben-glin a bu'n rhaid iddo dderbyn llawdriniaeth. Mae'n dal mewn plastr. Brysfa fendio Vivian.

## Priodas

Llongyfarchiadau i Susan Jeffries, merch y diweddar Raymond a Katie May Jeffries, Tan y Bryn ar ei phriodas ym Mis Gorffennaf gyda Melvyn Price. Maent wedi gwneud eu cartref ar Ynys y Barri.

## CAPEL SHILOH

Wedi seibiant yn ystod Mis Awst mae'r gwasanaethau wedi ail gychwyn gyda'r oedfaon yn cychwyn am 5.30. Dylid nodi y bydd amser yr oedfa hwyrol yn newid ym mis Ionawr i 5 o'r gloch. Roedd yr Ysgol Sul yn cychwyn ar dymor newydd ar Fedi 9fed ac mae croeso cynnes iawn i aelodau newydd i'r Ysgol Sul yn ogystal â'r oedfaon.

Ar Fedi 16 roedd aelodau'r Ysgol Sul yn ymgynnull gydag Ysgolion Sul eraill y Dyffryn am wasanaeth arbennig ym Mhlas Ffrancon, Bethesda.

Oherwydd y tywydd gwael yn ystod yr haf bu'n rhaid gohirio barbeciw blynyddol yr Ysgol Sul ond gobeithiwn ei gynnal Ddydd Sul, Medi 23, yn Cwm Hyfryd, 9 Gefnan, Mynydd Llandygai, os y bydd y glaw yn cadw i ffrwrdd!

Anfonwn ein cofion at un o'n haelodau, sef Mrs Beti Whitehead, Plas Ogwen, Gorwel Dêg gynt, sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar ac wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Gobeithio eich bod yn cryfhau, Bet.

Dyma gyhoeddiadau Shiloh am yr wythnosau nesa  
Oedfaon gyda'r nos am 5.30 a'r Ysgol Sul am 10.30 oni nodir yn wahanol

### Medi 23

Parchedig Geraint Roberts, Porthaethwy

### Medi 30

Mr J.O. Roberts, Bethesda

### Hydref 7

Parchedig Gwynfor Williams

### Hydref 14

Parchedig John Owen, Bethesda

### Hydref 21 [10.30]

Oedfa Deulu y Diolchgarwch yng nghwmni Dr Connor Martin

### Hydref 28

Mr Richard Lloyd Jones, Bethel

## Gair o ymddiheuriad

Roedd Mari Gwyn, Gorffwysfa, Sling yn un o aelodau'r Urdd oedd yn gyfrifol am lunio a chyflwyno Neges Ewyllys Da Ieuenctid Cymru yn yr Eisteddfod yng Nglynllifon ar ddechrau mis Mehefin. Ymddiheuriadau i ti Mari am adael dy enw allan o'r rhestr yn y Llais diwethaf.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mari hefyd ar ddod yn Brif Ferch Ysgol Dyffryn Ogwen, ac ar lwyddo yn ei phrawf gyrru yn ddiweddar. Da iawn chdi Mari!

# Tân y Dob

Cawsom i gyd fel pentrefwyr yn Nhregarth a'r ardal yn gyffredinol ein dychryn o glywed am y tân a ddifethodd gartref Brenda a Gareth Hughes yn llwyr, ym mis Awst. Roedd Brenda i ffrwrdd o gartref ar ddiwrnod y tân a da oedd clywed nad oedd dim niwed wedi dod i Gareth. Ers hynny mae'r ddau wedi bod yn cartrefu yn y Felinheli ond yn gobeithio dychwelyd i fyw ym Methesda neu Dregarth yn y dyfodol agos. Rydan ni'n meddwl amdanoch a gwyddom am eich angen yn sefydlu cartref o'r newydd. Mae pobol yr ardal wedi bod yn garedig ac rwy'n siŵr y bydd hynny'n parhau.

## EGLWYS Y SANTES FAIR, Tregarth

### Bore Coffi

Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus iawn yn Neuadd Ogwen ar 21 Gorffennaf gan wneud elw o £350. Diolch yn fawr iawn i drigolion Bethesda a'r Cylch am eu cefnogaeth a'u cyfraniad i'r Bore Coffi

### Diolchgarwch am y Cynhaeaf – 30 Medi

9.45 yb – Cymun Bendigaid  
5.00 yh – Hwyrol Weddi ar Gân  
Taer erfynir ar Gymry Tregarth i gefnogi'r Gwasanaeth traddodiadol hwn, gwan iawn fu'r gefnogaeth yn y gorffennol. Y mae'n bwysig diogelu ein traddodiadau Cymreig, a hwn yn un ohonynt.

### Cydymdeimlad

Yn frawychus o sydyn ar 28 Awst bu fawr Angus Jones, ŵyr Mrs Myra Jones, Erw Faen, a'r diweddar Mr Jack Jones, ac yntau ond yn 34 oed. Anfonwn ei cydymdeimlad dwysaf at ei briod, Mrs Myra Jones ei nain, Keith a Susan ei rieni, Liam a Lucy ei frawd a'i chwaer a'r teulu oll yn eu galar a'u colled fawr.

### Colled Fawr

Cydymdeimlir yn fawr â Brenda Hughes a'i brawd Gareth Jones ar golli eu cartref mewn tân yn ystod yr haf. Er iddynt ddioddef colled fawr mae'n dda gwybod na ddaeth niwed i unrhyw un o'r ddau. Deallir bod ymdrechion yn lleol i'w helpu i ddodrefnu eu cartref newydd pan fydd hynny'n bosibl – yn fuan gyda gobaiith.

### Clwb Cant Y Gelli – Awst

£20 27 Catrin Roberts  
£10 40 Owen T Jones  
£10 50 James Griffiths  
£ 5 07 Mrs B Buckley

## Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Cynhaliwyd Noson Agoriadol y gangen leol yn Festri Capel Shiloh Nos Lun, Medi 3 a daeth tyrfa ardderchog i'r cyfarfod cyntaf, gydag un aelod newydd, sef Mrs Nan Humphreys, Llanfyllin, fydd yn ymweld â'i merch Sioned yn Fferm Dob yn achlysurol. Noson gartrefol, braff gafwyd dan arweiniad medrus Mary Jones, Bethesda. Wedi cyflwyno gohebiaeth a llongyfarch teuluoedd gyda ieuenctid fu'n llwyddiannus mewn arholiadau Ysgol a Choleg cafwyd cyfle i longyfarch un o aelodau'r gangen, sef Jên Margiad Temple Morris a'i phriod Richard ar enedigaeth merch fach ym mis Gorffennaf, sef Margiad Ann.

Yng nghwmni Mary cafwyd hanes sefydlu Llais Ogwan a dyddiau cynnar ein Papur Bro arbennig ni, a sefydlwyd yn 1974. O edrych ar y rhifynnau cynnar mae'n rhyfeddol sut y datblygodd y papur a chymaint fu'r newid ers y dyddiau cynnar bron i ddeugain mlynedd yn ôl.

O'r dyddiau cynnar hynny hefyd daeth dau gyhoeddiad lleol, sef 'Glywsoch chi hon?' a 'Beth am Gân?'. Detholiad o ffraethebion a straeon digri o ardal Bethesda oedd 'Glywsoch chi hon?', gyda'r argraffiad cyntaf ym mis Hydref 1976. Cyflwynwyd y gyfrol i bobol Dyffryn Ogwen er mwyn dyfodol y Fro Gymraeg ac mae yno straeon digri gan William Richard, Gerlan; Matthew Williams, Carneddi; Thomas Hughes, Tanrhiw, Tregarth; a Dafydd Owen, Coed Uchaf, Llanllechid. Roedd y Cyhoeddiadau Bro yn waith Cangen Dyffryn Ogwen o Fudiad Adfer. Cyflwynodd Mary nifer o straeon digri o'r gyfrol yn ogystal â darllen cerddi a chaneuon o 'Beth am Gân?' a rhannau o 'Un Nos Ola Leuad' Caradog Prichard. Cafwyd noson hwyliog a difyr a diolchwyd i Mary gan Alwenna Puw, Bethesda.

Roedd y pwyllgor wedi bod yn brysur yn paratoi paned, Bara Brith a Chacennau Cri, a mwynhawyd y lluniaeth yn fawr.

Cynhelir cyfarfod nesa'r gangen nos Lun, Hydref 1, Sef 'Hanes Lleol' yng nghwmni John Elwyn Hughes. Dewch yn llw, aelodau hen a newydd!!



# Rhiwlas

**John Huw Evans,**  
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas  
☎ 352835

## Geni

Llongyfarchiadau i Andrew Dodd a Hilary Igoe, 5 Bryn Teg Terrace ar enedigaeth Jasmine Mali. Dymunwn yn dda iddynt fel teulu.

## Ennill Gradd

Mae Fflur Angharad Huws, Tan y Castell, wedi ennill gradd BSc Anrhydedd 2i mewn Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Gorfforol ym Mhrifysgol Bangor. Llongyfarchiadau Fflur a phob lwc i'r dyfodol.

## Dymuno gwellhad

Cafodd Iwan Griffith, Fferm Castell lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Gobeithio dy fod wedi gwella erbyn hyn Iwan.

## Mynegi Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn gywir gyda Cynog a Meggan Prys, 3 Caeau Gleision. Bu farw nain Cynog, Catherine Eileen Beasley yn ei chartref yn Henllan Amgoed, Hendygywyn ar Daf ar 12 Awst.

## Cydnabod Cydymdeimlad

Dymuna Hugh, Ann a Iolo, Arwel a Sioed a theulu y diweddar Olive Jones, Talmignedd Isaf, Nantlle, ddiolch o galon am y llu o gardiau, galwadau ffôn, geiriau o gysur a phob cymwynas a dderbyniwyd yn eu profedigaeth. Bu hyn oll o gymorth i ni fel teulu yn ystod cyfnod anodd.

Diolch i'r parchedig Iwan Llewelyn Jones, y Parchedig Harri Parri a'r Parchedig Ddr Huw John Hughes am eu gwasanaeth cofiadwy a hefyd i Mrs Eirian Hughes yr organyddes.

Diolch arbennig i staff Ward Alaw am eu gofal diflino ohoni, hefyd i nyrsys y gymuned a Meddygfa Dolwenith, Penygroes. Gwerthfawrogir y rhoddion hael, sef y swm o £4210 a dderbyniwyd er cof am Olive.

Hoffem ddiolch hefyd i Iolo Roberts & Owen am drefniadau hynod drylwyr ac urddasol.

## Marwolaeth

Trist yw cofnodi marwolaeth Ruby (Jane) Dalby, 21 Bro Rhiwen. Bu Ryby farw yn Ysbyty Gwynedd ar 18 Gorffennaf yn 61 oed wedi brwydr hir a dewr yn erbyn ei salwch. Er gwaethaf ei hafiechyd, parhaodd i ddilyn ei hoff bleser, sef magu a gofalu am ei cheffylau, hyd y diwedd. Er mai pleser ydoedd hyn iddi gellid ei chyfrif yn arbenigwraig yn y maes, fel y tystia'r llu tlysau, cwpanau a thystysgrifau oedd ganddynt yn eu meddiant.

Cynhaliwyd gwasanaeth ei hangladd yn Amlogfa Bangor ar 26 Gorffennaf, gyda'r Parchedig Marcus Robinson yn gwasanaethu.

Rhoddodd ei merch, Sharon, deyrnged gywir a theimladwy i'w mam yn ystod y gwasanaeth. Mae ein cydymdeimlad yn gywir a diffuant gyda holl gysylltiadau ei theulu.

## Priodas

Yn Eglwys y Waun, Waunfawr ar 11 Awst priodwyd Robin Wyn Williams, mab y diweddar Hywel a Betty Williams, 1 Bro Rhiwen, a Manon Eluned Lewis o'r Waunfawr. Dymunwn iechyd a hapusrwydd i'r ddau.

## Croesawu Prifathro

Dechreuodd tymor y gaeaf yn Ysgol Rhiwlas gyd phennaeth newydd wrth y llyw. Nid yw Mr Iwan Arwel Davies yn ddiethr i'r pentref fodd bynnag gan y magwyd ei fam, Eurwen Mai, ym mro Rhiwen, yn ferch i Ifor a Maggie Jones. Prin y meddyliodd ei fam pan oedd hithau yn yr ysgol y buasai ei mab yn bennaeth yno un diwrnod.

Cychwynodd Mr Davies ei yrfa fel athro yn Ysgol Glan Conwy, gan dreulio'r pum mlynedd ganlynol yn Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog. Am y deg mlynedd olaf bu'n bennaeth ar Ysgol y Garreg, Llanfrothen. Dymunwn iddo lwyddiant a boddhad yn y swydd.

# Glasiinfryn Caerhun

**Marred Glynn Jones**  
2 Stryd Fawr, Glasiinfryn,  
Bangor LL57 4UP  
01248 351067  
Marred567@btinternet.com

## Llongyfarchiadau

Daeth llwyddiant ardderchog i ddau o'r ardal yn eu harholiadau gradd. Derbyniodd Sara Orwig, Bryn Gwredog Uchaf, Waen Wen, radd BA Anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Cymraeg a Ffrangeg o Brifysgol Caerdydd. Graddiodd Huw Vaughan Williams, Fferm Tyddyn Heilyn, Caerhun o Goleg Cerdd Brenhinol Caerdydd gyda gradd BMus Anrhydedd, Dosbarth Cyntaf. Enillodd Huw Ysgoloriaeth Yamaha hefyd.

Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ar eu camp ardderchog a phob dymuniad da iddynt yn y dyfodol. Llongyfarchiadau hefyd i chwaer Huw, Eluned Vaughan Williams, ar ei llwyddiant yng Ngholeg Menai ar y cwrs Celf sylfaenol. Pob dymuniad da iddi hi wrth iddi ddechrau cwrs tair blynedd mewn Celfyddyd Gain yn y Coleg.

## Bingo

Gwnaed elw o £127 tuag at Radio Ysbyty Gwynedd yn y Bingo a gynhaliwyd yn y Ganolfan ar 27 Gorffennaf. Y mae'r arian wedi cael ei ddefnyddio yn barod i brynu microffon fydd yn galluogi

gwirfoloddwyr Radio Ysbyty Gwynedd i fynd o amgylch y wardiau i gael sgwrs gyda'r cleifion. Diolch o galon i bawb am gefnogi a chyfrannu tuag at y noson. Cynhelir y Noson Bingo nesaf ar nos Wener 5 Hydref am 7.30, gyda'r elw at y gangen leol o Fyddin yr Iachawdwriaeth.

## Gwellhad

Dymuniadau gorau am iachâd buan i Miss Mair Vaughan Williams, Hen Dŷ, Caerhun sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd.

## Clwb Cant y Ganolfan Gorffennaf

£20 - 75 - Mrs A M Pritchard  
£10 - 140 - Mrs Carol Roberts  
£5 - 1 - Mrs Vera Williams

## Awst

£20 - 7 - Mrs Mari Langham  
£10 - 31 - Mrs Monica Morris  
£5 - 35 - Mrs Ann Illsley

# Mynydd Llandygái

**Theta Owen.**  
Gwêl y Môr,  
Mynydd Llandygai.  
☎ 600744

Llongyfarchiadau i bobl ifanc y pentref sydd wedi cael canlyniadau da yn yr arholiadau. Pob lwc i'r plant sy'n newid ysgol ac eraill sydd ar eu ffordd i brifysgol neu i waith. Hwyl fawr i chi i gyd. Croeso i Jackie ac Elwyn Davies sydd wedi symud i fyw i Benrhiw. Dymuniadau gorau am bob hapusrwydd i chi yn eich cartref newydd.

## Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

**Medi 23ain:**  
9.45 Gwasanaeth Diolchgarwch  
**Medi 30ain:**  
10.00 Cymun Bendigaid - St. Cedol, Pentir (Yr unig wasanaeth yn y Plwyf y Sul hwn)  
**Hydref 7fed:**  
9.45 Gwasanaeth Teuluol  
**Hydref 14eg:**  
9.45 Cymun Teuluol  
**Hydref 21ain:**  
9.45 Boreol Weddi.

Estynnwn groeso mawr i chwi oll i ymuno â ni yn ein Gwasanaeth Diolchgarwch. Gwneir casgliad o'r doniau, bwydydd sych neu anghenion babanod ar gyfer 'Banc Bwyd' Eglwys Gadeiriol Bangor. Bydd llawer o'n plant a'n pobol ifainc wedi symud i ysgolion newydd; yn mynd i'r Brifysgol neu'n dechrau ar yrfaedd newydd y mis hwn. Pob llwyddiant i chwi. Cofiw'n am bawb sydd yn sâl ar hyn o bryd a dymunwn adferiad iechyd buan i chwi oll.

Bydd gweithgareddau yn ai-ddechrau yn y Neuadd y mis hwn - Clwb y Mynydd, y Clwb Ieuencid ac eraill. Croeso i chi ymuno â ni.

Cofion at bawb sydd ddim yn dda eu hiechyd. Dymunwn adferiad buan i chi.

# O'r Cyngor

Cynhaliwyd cyfarfod mis Gorffennaf yng Nghanolfan Tregarth gyda'r Cynghorydd Rhys M. Llwyd yn y gadair.

Parheir mewn cysylltiad â'r Cyngor Sir ynglŷn â chael gwella diogelwch ar waelod Allt Cerrig Llwydion ynghyd â'r posibilrwydd o ddarparu rhagor o safleoedd parcio ar Ystad Bro Syr Ifor.

Yn dilyn cwynion gan y Cyngor Cymuned mae'r Cyngor Sir wedi trefnu i glirio ysbwriel ac wedi trin rhai o'r llwybrau lle roedd dŵr a diffyg traenio yn broblem.

Er bod y Cyngor Sir wedi rhoi sylw i orlif ar y ffordd ym Mynydd Llandygái parheir i gwyno yn dilyn glawogydd trwm.

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig i ystyried cais cynllunio yn Chwarel y Penrhyn ac anfonwyd nifer o argymhellion i sylw Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd.

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Rhys M Llwyd ar Ganolfan Tregarth, gan y Cynghorydd Mrs M Leverett ar faterion yn ymwneud â Neuadd Talgau, gan y Cynghorydd Mrs Einir Frodsham ar y Neuadd Goffa a gan y Cynghorydd Dafydd Owen ar Bwyllgor Prosiect Bangor.

Penderfynwyd gofyn i'r cwmnïau bws drefnu fod eu gyrrwyr yn sicrhau nad oes teithwyr yn ymochel cyn mynd heibio llochesi bws, yn enwedig yr un ar Lwybr Main, Mynydd Llandygái.

Trefnir i atgyweirio a thacluso rhai o'r llochesi bws.



Radio Rhydd, enillwyr Brwydr y Bandiau



Lleuwen Steffan



Geraint Jarman



Sen Segur

Ymateb un a oedd yno i gyngerdd Geraint Jarman ar y nos Wener:  
"Gwefreiddiol! Roedd o'n gyfle i bobl o bob oed werthfawrogi un o eiconau'r Sîn Roc  
Gymraeg." Meleri Davies, Llanllechid



Geraint Lovgreen



Y gynulleidfa'n mwynhau

# Pesda'n Rocio

Cychwynwyd **Pesda Roc** eleni gydag Ymryson y Beirdd ar y nos Fercher. Ifor ap Glyn oedd yn cloriannu cynnyrch dau dîm o feirdd. Roedd y cynnyrch o safon uchel ac ychwanegiad braf i'r noson oedd cyflwyniad gan Geraint Lovgreen o rai o'i ganeuon Talwrn. Tîm Caernarfon a Sling oedd yn fuddugol a cawsant eu cyflwyno gyda chadair o bren lleol yn rhoddedig gan gwmmi Gwasanaethau Coed Dafydd Cadwaladr Cyf.

## Brwydr y Bandiau

Ar y nos Iau cafwyd Brwydr y Bandiau gyntaf Pesda Roc gyda grwpiau ifanc yn cystadlu am Dlws Les Morrison. Llonyfarchiadau i'r pedwar band a ymgeisiodd, roedd y safon yn uchel iawn a braf gweld traddodiad roc Bethesda mor fyw ymhlith y cystadleuwyr ifanc. Yn ogystal â'r bandiau yn y frwydr, cafwyd perfformiadau anhgoel gan Sŵnami a Hud. Dyfarnwyd Radio Rhydd yn fuddugol gan y tri beirniad sef Mr Huw, Iwan Evans (Topper) ac Efa Supertramp. Gwobr y frwydr oedd cael chwarae ar yr un llwyfan â Geraint Jarman nos Wener, cael sesiwn recordio gyda C2 a rhodd o £200. Cafwyd perfformiad egniol gan Cai O'Marah o Radio Rhydd wrth iddo fynegi ei athroniaeth am fywyd, sef anarchiaeth, annibyniaeth a chwalu cyfalafiaeth. Ffurfiwyd Radio Rhydd yn ystod sesiynau Technoleg Cerddoriaeth Pesda Roc ychydig fisoedd yn ôl. Mae'n wych gweld dylanwad Pesda Roc ar bobl ifanc yr ardal a bydd y band yn siwr o fynd ymlaen i wneud eu henw ar draws Cymru. Cafwyd perfformiad rhagorol a thyn gan y grŵp a haeddant bob clod am eu holl berfformiadau yn ystod yr ŵyl.

## Jarman ar ei Orau

Roedd tyrfa fawr wedi ymgynull yn Neuadd Ogwen i weld Geraint Jarman nos Wener. Cafwyd perfformiadau di-fai gan Sen Segur a Radio Rhydd. Yr oedd pawb wedi dod yno i fwynhau a chafwyd uchafbwynt teilwng a phroffesiynol gyda'r cynganeddwr main yn ymateb yn llawen i'r alwad am ddau encôr. Roedd hi'n noson fythgofiadwy a mawr yw'r clod i bawb a gymerodd ran boed hynny o'r llwyfan neu o'r ochrau.

## Cerddorion Amrywiol

Yn dilyn Bore Ffa Coffi Pawb ar y dydd Sadwrn cafwyd darlith gan Tony Schiavone ar y berthynas rhwng Cymdeithas yr Iaith a'r Sîn Roc Gymraeg - darlith ddiddorol dros ben yn edrych yn ddwfn ar gerddoriaeth Gymraeg o'r 1970au hyd at heddiw. Roedd Ffair Recordiau yn dilyn y ddarlith a gobeithiwn y bydd hyn yn ychwanegiad blynyddol i'r ŵyl. Hefyd dydd Sadwrn roedd sawl digwyddiad mewn nifer o leoliadau yn Methesda. Yn y Llangollen, King's Head, Caffi Coed-y-Brenin a Caffi Seren - cafwyd perfformiadau gan nifer o gerddorion gan gynnwys Yr Angen, Y Blaidd, Alun Gaffey, Gwyneth Glyn, Y Violas, Efa Supertramp, Alex Morrison a llawer mwy.

## Cyngerdd Nos Sadwrn

Nos Sadwrn roedd cyngerdd wych yn Neuadd Ogwen yng nghwmni Lleuven Steffan, 9Bach a Steve Eaves. Gall Bethesda ymfalchio ym mherfformiadau medrus a phroffesiynol ei thriawd uchod o frethyn cartref. Cafwyd perfformiadau glân a dirodres gan y cyfan ohonynt gyda'r gynulleidfa yn barod iawn i ddangos ei gwerthfawrogiad. Hefyd yn y Clwb Rygbi cafwyd sioe anhgoel gan Y Blaidd, EnBe a Poket Trez. Roedd pawb yn dawnsio ac roedd hi'n wych cael noson ifanc, fywiog i gyd-fynd gyda mwynder Neuadd Ogwen.

## Diwedd glo Mawreddog

I gloi'r wythnos ar y nos Sul, cafwyd noson gyda Dilwyn Morgan yn cyflwyno Côr y Penrhyn, y Boncathod, Hogiau'r Bonc a Gwenllian Jones. Roedd yn ddiwedd glo addas i ŵyl sydd yn dathlu doniau lleol Dyffryn Ogwen. Wrth edrych yn ôl gwelir fod y rhan fwyaf o berfformiadau'r wythnos yn gynyrrh lleol ac wrth ymfalchio yn hynny gobeithio y gellir rhoi sylw i ddatblygu talentau at y dyfodol a pharhau gyda'r traddodiad unigryw hwn yn yr ardal.

(Adroddiad: Elin Gwyn; Llundiau: Stephen Rees; Llundiau Radio Rhydd: Gaynor Thomas)



Steve Eaves



## Ymryson Pesda Roc



Tîm 'Caernarfon a Sling' a oedd yn fuddugol yn Ymryson y Beirdd O'r chwith i'r dde: Geraint Lovgreen, Nici Beech, Gwynfor ab Ifor a Rhys Iorwerth



## Plaid Cymru, Cangen Dyffryn Ogwen

Dyma ni unwaith eto ar ddechrau tymor newydd.

Llongyfarchiadau i'n haelodau a fu'n llwyddiannus mewn ysgol neu goleg a dymunwn yn dda iawn iddynt oll.

Cynhaliwyd ein cyfarfod diwethaf, Gorffennaf 31, gyda Paul Rowlinson yn y gadair. Llongyfarchwyd Paul ar gael ei gyfethol ar Gyngor Cymuned Bethesda.

Cefnogodd y Gangen welliant gan y Cynghorydd Dafydd Meurig, i gynnig ar gyfer y Gynhadledd Flynnyddol sef, "Pwyso ar Lywodraeth y Dernas Unedig i ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru holl bwerau a chyfrifoldebau Ofcom sy'n berthnasol i Gymru. Byddai hyn yn cynnwys yr hawl i godi ffi ar gwmnïau telegyfathrebu am ddefnyddio tonfeddi radio ar draws Cymru, arian y gellid ei ddefnyddio i sybsideiddio'r diwydiannau darlledu a phapurau newydd".

Diolchwyd i Dafydd Owen am ei gymorth i Alun Ffred Jones yn ei gymhorthfa yn Neuadd Ogwen ac i bawb a ddsbarthodd daflenni.

Bu Alun Ffred Jones yn ymweld ag Ysgolion Pen-y-bryn ac Abercaseg gyda'r Cynghorydd Ann Williams yn dilyn eu llwyddiant arbennig yn yr arolwg a gynhaliwyd yn y ddwy ysgol eleni.

Penderfynwyd anfon at y rhai perthnasol i ddatgan bod medru'r Gymraeg yn hanfodol mewn swyddi lleol a hysbysebwyd yn ddiweddar sef yn y Swyddfa Bost a'r Feddygfa.

Oherwydd galwadau gwaith a llawer o ymrwymadau gyda Pesda Roc ac ati, chwith oedd gennym glywed bod Meirion Llywelyn wedi penderfynu ymddiswyddo fel aelod o Gyngor Cymuned Llanllechid. Dymunwn yn dda iddo gyda'i holl waith.

Croesawyd y newyddion da o'r chwarel ynglŷn â'r gwelliant yn sefyllfa'r gweithwyr.

### Dyddiadau i'w cofio :-

Bore Coffi yn Neuadd Ogwen ar Sadwrn, 29 Medi.

Ocsiwn Addewidion yn y Clwb Rygbi ar Nos Wener, 9 Tachwedd.

Noson Dwynwen yn y Clwb Rygbi (manylion i ddilyn).

Cesglir addewidion tuag at yr Ocsiwn a bydd cyfraniadau tuag at y Bore Coffi yn dderbyniol

## Cyflwynwyo Rhodd i Wynn



Cyflwynwyd rhodd o gloc llechen i D. Wynn Williams fel arwydd o ddiolch iddo am ei wasanaeth clodwiw fel cynghorydd Plaid Cymru ar Gyngor Cymuned Llandygai am gyfnod o dros ddeng mlynedd ar hugain. Yn y llun efo Wynn mae Gwilym Evans (Clerc y cyngor) Dafydd Owen (Is-gadeirydd) a Rhys Llwyd (Cadeirydd).

## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Da oedd deall ar ddechrau mis Gorffennaf fod y daith gerdded wedi codi'r ddau gant o bunnoedd yr oedd eu hangen i anfon merch i gynhadledd Plaid Lafur Prydain yn yr hydref. Ganol y mis, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Plaid Lafur Arfon yng Nghaerfarnon, lle cafodd yr un rhai o'r gangen eu hethol i'r Pwyllgor Gwaith, Plaid Lafur Gwynedd, Plaid Lafur Gogledd Cymru a'r Pwyllgor Ymgyrchu. Cyhoeddwyd y byddai Plaid Lafur Prydain yn cefnogi argymhellion y comisiwn ffiniau pe bai etholaethau newydd ar gyfer etholiadau San Steffan yn cael eu hargymell ar gyfer Cymru.

Tua diwedd y mis cynhaliwyd y cyfarfod misol arferol yng Nghanolfan Cefnfaes, gyda thrafodaeth frwd am yr angen i gael mwy ar gyfer pobl ifanc yn y Dyffryn. Da oedd cael croesawu dau aelod newydd i'r cyfarfod.

Ni chynhaliwyd cyfarfod ym mis Awst ond cynhelir y cyfarfod misol arferol yng Nghanolfan Cefnfaes nos Fercher, 26 Medi – sef pedwaredd nos Fercher y mis. Bwriedir trafod cynnig am hyfforddi pobl ifanc ddi-waith.

Un o uchafbwyntiau'r Talwrn oedd englyn gan y Prifardd Rhys Iorwerth ar y testun 'Tŷ Bach':

### Tŷ Bach

(Llwyddodd fy hen dad-cu a fy hen fam-gu i fagu 12 o blant ar aelwyd nad oedd llawer mwy na sawl stafell fyw heddiw.)

Prin fod trefn na dodrefnyn, ond rywsut

hwnt i'r drws bob blwyddyn,

y tŷ hwn, y tlota' un,

oedd yn neuadd ddi-newyn.

Rhys Iorwerth

## Nyth y Gân

### Gwên

Cynnar wên gyda'r wannaf a gafwyd  
Wedi'r gofal mwyaf,  
Ond daeth gwên fel heulwen haf  
Yn antur y cam cyntaf.

### Arferion Gwerin

Mor werthfawr oedd y cneifion gwlan  
A ddaeth fel rhodd gan ddefaid mân,  
Ceid peth mewn gwrych neu ar y llawr  
Yn barod yno i'w hel bob awr.

A'i hel a gawsai hwn o hyd  
Gan y trigolion tlawd eu byd,  
A'i nyddu i'w droi yn beli gwlan  
A'i wau yn ddiwyd o flaen tân.

Roedd gan y tlodion hawl bryd hyn  
I wlana wrth fod pethau'n dynn,  
Ac ar y mynydd gwelid hwy  
Yn llenwi'u sachau mewn sawl plwy.

Hawl arall oedd i dorri mawn,  
A darlun o'r sled lusg a gawn,  
A'r gyllell finiog a'i choes hir  
Yn sleisio'r tanwydd hwn o'r tir.

Arferai ffermwyr yn eu tro  
I losgi eithin uchel fro,  
Ceid poethwal nawr a'i risgl du  
I'r werin hel i g'nesu'r tŷ.

Yr olaf hawl oedd torri brwyn  
Yn swm y nant a bref yr ŵyn,  
I greu y gannwyll seml iawn  
I weddu efo'r hen dân mawn.

### Papur Bro

Hel meddyliau yn y gadair  
Y mae'r ddau o flaen y tân  
Pan ddaw cnoc a llais cymydog  
Yno i gynnal sgwrsio mân.

Digon sydd bob nos i'w drafod  
Wedi darllen papur bro  
Am rai newydd wedi'i geni  
Ac am eraill aeth i'r gro.

Pwytho'n dynn mae'r Llais yn fisol  
Ein cymdeithas fregus ni,  
A thynhau y gwead hwnnw  
Yn dy galon di a mi.

### Chwarel y Penrhyn a'r Streic Fawr 1900-1903

Pa anrheg fu Chwarel y Penrhyn, yr hon  
A rannodd ein dyffryn?  
Un egr fu pob deigrin  
Yn oes y Lord i sawl un.

### Wagenni'r Chwarel

Mor bwysig fu'r wagenni gynt; nadroedd  
Hyd y cledrau oeddynt;  
Dyrnau a gaewyd arnynt  
Yn y bonc ond am ddwy bunt.

### Llawfeddyg

Hwn ddeil â'i gadarn ddwylo, un finiog  
Na fyn iddi lithro  
Yn trosi tra yn trwsio  
Y gwan dan ei lygaid o.

Dafydd Morris

### Cacen afal Goronwy Wyn Owen (Tarte aux pommes à la Braichmelyn)

Â hufen 'does mo'i hafal, -ni flaswyd,  
Ni flesir ei chystal;  
Gorau i mi ei siwgr mâl,  
Nefoedd o cacen afal!

Howard Huws



# Croesair Medi 2012

## AR DRAWS

- Coed o deulu'r fedwen sy'n hoffi tir gwlyb. (5)
- Ffreetur y chwarelwyr gynt yn chwareli Arfon. (5)
- Mesur o dir. (3)
- "-----i, Dioddefodd Iesu mawr." Cwestiwn dwys a phersonol emyn John Elias o Fôn. (2,2,2,5)
- Un sy'n gwahanu pethau'n daclus i wahanol bentryrau. (7)
- Rhaid i chi drefnu ymlaen llaw i gael rhai cadw yn y theatr neu'r stadiwm rygbi. (5)
- Mae'r un ddu wedi gorffen yn rhyfedd. (6)
- Mi wnes ti fynd. (6)
- Dywedir mai mewn hwn y mae nerth. (5)
- Wrth ofyn am faddeuant, rhaid dangos eich bod yn ----- am eich camwedd. (7)
- Arlywyddion ----- oedd Lincoln, Kennedy a Nixon. (11)
- Ffotograff. (3)
- Yr oedd ar goll yn yr antur, y ---- bach! (5)
- Medrwhch gael rhai newydd, pum munud a chynnar. (5)


## I LAWR

- Os ydych wedi etifeddu rhyw dalent arbennig, dywedir ei fod yn y ----. (5)
- Gwraig y sarff a'r afal! (3)
- I bwy y rhoddir Gwobr Daniel Owen bob blwyddyn? (7)
- Wedi meddwi'n chwil, mae criw am wneud niwed a drygioni mawr. (6)
- Deunydd adeiladu traddodiadol, rhai coch, llwyd neu felyn. (5)
- I'r gymdeithas leol, mae un yng Nghricieth, Penmorfa a Phen-y-groes. (5,4)

- Rhaid cael ugain o 13 I Lawr i wneud hyn. (3,4)
- Gwaith, masnach a ffatrioedd. (9)
- Deg ceiniog ar ôl 1971, ond faint cyn y newid? (7)
- Anifail gwyn sy'n dynodi rhywbeth costus i'w gynnal ac yn fwy o drafferth na i werth. (7)
- Hen air am roi sialens? (6)
- Beth wnai'r fuwch pan oedd y llo yn chwarae Jim Cro. (5)
- Mae'r Aelod Seneddol yn cael anrhydedd a pharch ar ôl ymuno â phrif fudiad ieuenctid Cymru. (5)
- Mae un y Blaca yng Ngheredigion ac un Walis yng Nghaerfyrddin. (3)

Croeso'n ôl groeseirwyr. Gobeithio fod un neu ddau o rai newydd yn eich plith. Rhowch gynnig arni.

Y camgymeriad mwyaf y mis diwethaf, (ac roedd nifer dda ohonoch wedi syrthio i'r trap), oedd yr ateb i'r cliw "Bonllef o gymeradwyaeth". 'Hwre' oedd yr ateb cywir a nid 'Gwae'. Ta waeth, dyma'r rhai a anfonodd atebion hollol gywir: Heulwen Evans, Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Gareth W. Jones, Bow Street; Ann Carran, Bethesda; Karen Williams, Elfed Evans, Llanllechid; Dulcie Roberts, Tregarth. Ond yr enillydd y tro hwn yw Rosemary Williams, 19 Ffordd Tanrhiw, Tregarth, Bangor. Go dda chi.



## ATEBION CROESAIR GORFFENNAF/AWST 2012

**AR DRAWS** 1. Llygadog; 5. Pryd; 9. Datblygu; 10. Acen; 11. Almaen; 13. Adio; 15. Sach; 17. Deian; 19. Co; 20. El; 21. Symol; 23. Awch; 26. Tras; 27. Yr Afon; 30. Moto; 31. Gweundir; 32. Gallu; 33. Pendant.

**I LAWR** 2. Ystum; 3. Arloesol; 4. Osgo; 6. Racedi; 7. Dynion; 8. Odlau; 12. Na; 13. Ael; 14. Iach; 16. Chwa; 17. Dechreuad; 18. Gyr; 19. Cos; 21. Stumog; 22. Mantell; 24. Wÿ; 25. Un tro; 28. Fodan; 29. Hwre.

Enw .....

Cyfeiriad .....

Atebion erbyn dydd Mercher 7 Hydref i 'Croesair Medi', Bron Eryri, 12 Gameddwen, Bethesda. LL57 3PD

# Serena

salon  
gwallt a harddwch  
Penigamp gynt

Ffordd Pen y Bryn, Bethesda,  
Gwynedd, LL57 3BD

Trin Gwallt a Harddwch  
mewn salon deuluol gyda  
dros 30 mlynedd o brofiad.

Rydym yn cynnig hefyd:  
"Shellac", "Threading", "Party lashes",  
Gwallt a Cholur Priodas  
gan ddefnyddio "bareminerals"

Am ragor o fanylion am ein holl  
driniaethau, neu i wneud apwyntiad

**Galwch: 01248 600861**  
serenahairandbeauty@gmail.com



**Alun Ffred Jones**  
Aelod Cynulliad  
Etholaeth Arfon

### CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth**, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth**, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
☎ (01286) 672 076

[alunffred.jones@cymru.gov.uk](mailto:alunffred.jones@cymru.gov.uk)



**Hywel Williams**  
Aelod Seneddol  
Etholaeth Arfon

### CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch af ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor:

**Swyddfa Etholaeth**, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth**, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
☎ (01286) 672 076

[williamshy@parliament.uk](mailto:williamshy@parliament.uk)

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

## EGLWYS UNEDIG JERUSALEM

### SIOE FFASIWN (So Chic)

Yn festri uchaf y capel  
Nos Fercher 26 Medi

am 7 o'r gloch

Tocyn £5  
yn cynnwys lluniaeth ysgafn  
Yr elw at y Capel



### 13 Hydref Marchnad Cynnyrch Lleol

Llys Dafydd, Bethesda  
LL52 3LU

10.00 – 2.00

Stondinau yn gwerthu pob math o nwyddau o safon uchel:- llysiau a ffrwythau, cacennau, siocled, caws, bara, cig, cardiau, Gwaith Llaw, Crefftau, Planhigion, Dillad wedi eu gwau, Gemwaith, a llawer mwy.

“Mae'n werth galw draw”

[www.facebook.com/marchnad-cynnyrch-lleol-ogwen-local-produce-market](http://www.facebook.com/marchnad-cynnyrch-lleol-ogwen-local-produce-market)

### Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

#### Paned a Sgwrs

Caffi Fitzpatrick 11.00 – 12.00

Dydd Sadwrn cyntaf pob mis

#### Peint a Sgwrs

Douglas Arms Bethesda

20.00 – 21.00

Trydydd Nos Lun pob mis

## NEUADD OGWEN BETHESDA GYRFA CHWIST

25 Medi

9, 23, 30 Hydref

am 7 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

## Eglwys Annibynnol Bethlehem

### Dathlu 150

Adeilad Presennol Capel  
Bethlehem Talybont

### Dydd Gwener 17 Hydref

4.30 y prynhawn **Oedfa'r Daith**  
gyda'r Parchedig Ddr Geraint  
Tudur

6.30 Y Cyfarfod Dathlu

Darperir lluniaeth rhwng y ddau  
gyfarfod.

Croeso Cynnes i Bawb  
*Ymholiadau: Neville Hughes*  
600853

## NEUADD OGWEN, BETHESDA

### BOREAU COFFI



**23 Medi:** Eisteddfod Dyffryn Ogwen

**29 Medi:** Plaid Cymru

**06 Hydref:** Capel Bethlehem, Talybont

**13 Hydref:** Merched y Wawr

**20 Hydref:** Capel Jerusalem

**27 Hydref:** Sioe Amaethyddol  
Dyffryn Ogwen

(Bob bore Sadwrn am 10.00 o'r gloch)

## Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

**Trefnydd:** Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Lôn y  
Wern, Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4BA  
(01248) 600798 [dafydd.roberts798@gmail.com](mailto:dafydd.roberts798@gmail.com)

### Rhaglen 2012/2013

Cynhelir yr holl gyfarfodydd ar yr ail Nos Lun ymhob mis am 7.00 o'r gloch ac eithrio cyfarfod mis Hydref. Bryd hynny cynhelir y Cyfarfod Blynyddol am 7.00 o'r gloch a bydd y ddarlith yn cychwyn am 7.30 o'r gloch.

Cynhelir y cyfarfodydd yn  
**Festri Capel Jerusalem, Bethesda**

### 2012

#### Nos Lun 8 Hydref

7.00 Y Cyfarfod Blynyddol

3.30 Dr Huw Owen – Capel Jerusalem, a  
Chapeli Cymru

#### Nos Lun 12 Tachwedd

7.00 Rhys Mwyn – Hanes Canu Pop Cymraeg  
yn y Trefi Chwaredyddol

#### Nos Lun 10 Rhagfyr

7.00 Maldwyn Thomas –  
Cadw'r Chwedlau'n Fyw

### 2013

#### Nos Lun 14 Ionawr

7.00 Dr Dafydd Roberts –  
Y Coedwigwyr ar Lethrau Moelyci

#### Nos Lun 11 Chwefror

7.00 Peredur Hughes – Iardiau'r Llechi

#### Nos Lun 11 Mawrth

7.00 Hugh John Hughes – Coleg y Werin –  
Dylanwad a Chyfraniad yr Ysgol Sul (Darlith  
Goffa Rhiannon Rowlands)

Ffi am y cwrs: £6.00 i rai mewn gwaith, £3.00  
i bensiynwyr a'r di-waith, Plant ysgol am  
ddim, Cost darlithoedd unigol = £1.50.

Y ffioedd i'w talu i Dafydd Roberts cyn noson  
gyntaf y tymor os gwelwch yn dda. Sicciau yn  
daladwy i: Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen.

## Gŵyl Llên y Llechi

Mae pwyllgor Pesda Roc yn trefnu Gŵyl Llên y Llechi ar y cyd gyda Llenyddiaeth Cymru. Bydd nifer o ddigwyddiadau yn ystod penwythnos olaf Medi ym Methesda i ddathlu ac annog llenyddiaeth y fro.

Nos Wener, Medi 28, yn Y Lolfa Lên (Rhif 55 Stryd Fawr, Bethesda) bydd sesiwn acwstig a gweithdy creadigol yng nghwmni Gwilym Morus o 7 tan 9 o'r gloch. Bydd gig yn dilyn yn Y Llangollen, mwy o fanylion i ddilyn.

Dydd Sadwrn, Medi 29, bydd nifer o weithgareddau trwy'r dydd gan gynnwys cyfle i gyfnwid llyfrau yn Swap Llyfrau Mawr Bethesda. Dewch gyda llond trol o lyfrau am fargeinion a cyfle i gymdeithasu trwy drafod ac argymhell llyfrau da. Bydd cyfres o weithgareddau yn dechrau am 11 y bore gyda sesiwn darllen gyda'n gilydd. Am 1.30 bydd sesiwn straeon i rieni a babanod yn cael ei gynnal gan Mari Gwilym. Bydd Mari wedyn yn adrodd a darllen straeon ar gyfer plant bach am 1.45 yn y prynhawn. Am 3 o'r gloch bydd sesiwn rapio a bitbocsio efo'r enwog Ed Holden.

Nos Sadwrn bydd darlith a chyflwyniad am nofel enwog Bethesda, Un Nos Ola Leuad, gan John Ogwen a J. Elwyn Hughes. Bydd y cyflwyniad ymlaen 7-9 yn Neuadd Ogwen ac yna bydd perfformiad arbennig i ddilyn gan un o hoff gerddorion Cymru.

I gloi'r ŵyl Dydd Sul, Medi 30 bydd sesiwn barddoniaeth yn y bore am 11. Mae llawer mwy o fanylion i ddilyn felly cadwch olwg am bosteri a chofiwch gadw'r penwythnos Medi 28-30 yn rhydd!

Cynhyrchiadau Garian yn cyflwyno  
**NOSON GYDA'R SÊR 2**  
Nos Wener 12ed Hydref 2012, 7.30yh

Yn Galeri, Caernarfon

GARETH OWEN  
yn cyflwyno

HOGIA'R WYDDFA  
TREBOR EDWARDS  
PIANTEL  
HEATHER JONES  
DYLAN A NEIL  
ELFED MORGAN MORRIS  
GARI JONES  
GEMMA MARKHAM  
a LLEISIAU LLANBABS



Tocynau: £12.50 ar gael o  
Galeri, Doc Victoria, Caernarfon 01286 685222  
www.galericaernarfon.com

www.walesairambulance.com

Arbed amser - Arbed bywydau  
Saving time - Saving lives



AMBIWLANS AWYR CYMRU  
WALES AIR AMBULANCE  
Rhif Elusen Cofrestredig 1083645

Noddir y Cyngerdd gan

**kon-x**  
COPY - PRINT - SCAN - FAX

## Theatr Bara Caws

yn cyflwyno Sioe Glybiau  
'UN BACH ARALL ETO...'  
gan Twm Miall

yng Nghlwb Rygbi Bethesda  
nos Wener a nos Sadwrn, 19 a 20 Hydref  
am 7.30 yh.

Yr actorion : Iwan Charles, Bethan Dwyfor, Llŷr Evans  
a Hefin Wyn.

*Mae Ron y tafarnwr mewn twll. Mae cwsmeriaid y  
'Cwch a'i Chaptan' cyn brinad â rhaglen dda ar S4C.  
Mae'r hen griadur a'i din at wal a dydi Lavs, ei wraig  
fawr o help..... pur anamal mae hi'n llnau a fedar hi  
ddim cwciio chwaith! Be ddaw o'r hen le? Fedar y ddau  
godi'r hen byb yn ôl ar ei draed?  
Noson ddifyr yng nghwmni llu o gymeriadau lliwgar .....*

Tocynnau ar gael gan Huw Waen (602480) a Linda  
Brown (601526)

## FFWFF

Mae Dyffryn Ogwen wedi bod yn eithaf arloesol ym maes cyhoeddi cymunedol. Erbyn heddiw mae'n anodd credu gweithred mor chwyldroadol oedd cyhoeddi rhifyn cyntaf Llais Ogwan yn y 1970au. Dilynwyd ef gan gylchgrawn chwaraeon, Campau, a chylchgrawn barddoniaeth, Awen Ogwen. Cyhoeddwyd nifer o lyfyrnau bro yn yr ardal hefyd, megis Glywsoch Chi Hon? a Beth am Gân yn ogystal â llyfryn o luniau'r ardal i ddathlu 25 mlwyddiant Llais Ogwan. Yn fwy diweddar cafwyd cylchgrawn ieuentid, Bachog, felly mae'n briodol fod y Llais yn cyhoeddi ymddangosiad cylchgrawn arall i'r stabal anrhydeddus hwn. Mae rhifyn cyntaf FFWFF! newydd ymddangos – "wedi ei wneud â llaw ym Methesda," meddir yn y broliant. Y mae'r cylchgrawn am ddim ond nid yw'n glir ym mhle y mae ar gael. Os ydych eisiau copi y peth gorau fyddai i chi gysylltu â daldydin@hotmail.co.uk.

Mae'r cylchgrawn yn un anarchaidd o ran ei ddaliadau ac yn cynnwys cyfweiliadau gyda Pat Morgan o grŵp Datblygu, a ddylanwadodd yn gryf ar rai o grwpiau Cymraeg ei gyfnod (hyd yn oed os oedd hynny bron i 40 mlynedd yn ôl) a chyfweiliad gyda Bethan Marlow, awdur y ddrama Sgint. Mae darluniadau gan Eluned Annaresti a Mererid Haf a cherdd gan Rhys Trimble o Rachub. Mae erthygl Saesneg am Louise Michel, anarcho-ffeminydd yng nghomiwn Paris yn 1870 a phwt byr iawn wedi ei atgynhyrchu o gylchgrawn Adbusters yn beirniadu'r diwydiant coluro. Er na fydd yn plesio pawb, mae'r cylchgrawn yn sicr yn un i'w groesawu.

## CLWB FFERMWYR IFANC DYFFRYN OGWEN

Mae Mai 25ain, 2013 yn edrych yn bell iawn ar y funud, ond mae aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen yn edrych ymlaen yn fawr iawn at y dyddiad yma.

Pam, medda chi? Wel, mi fydd aelodau'r clwb a'u cyfeillion yn croesawu eu Rali Ffermwyr Ifanc cyntaf ers i'r clwb gael ei ail sefydlu yn 2008.

Mae aelodau ac arweinyddion y clwb yn awyddus iawn i gael cymorth gan gyn aelodau a phobl leol i lwyfannu prif ddiwyddiad y Mudiad yma yn Eryri. Byddant yn cynnal eu cyfarfod cyhoeddus cyntaf nos Fawrth y 9fed o Hydref, am 7.30 yr hwyr yn y Caban yn Gerlan. Mae'r cyfarfod yn agored i unrhyw un a fyddai yn fodlon rhoi o'i amser i helpu'r clwb dros y misoedd prysur nesaf.

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Llinos Edwards, Cadeirydd y clwb ar 07799300141 neu Geraint Harper, un o Arweinyddion y clwb ar 01248 362139.



## Cynhelir

### 3edd Gŵyl Afon Ogwen

Dydd Gwener, 5ed Hydref – Dydd Sul, 7fed Hydref

Mwynhewch benwythnos o ddigwyddiadau cyffrous i bawb.

**CELFI, CERDD, BARDDONIAETH**

mewn safleoedd lleol sy'n cynnwys caffis a thafarnau

**TEITHIAU CERDDED HANESYDDOL,  
AMGYLCHEDDOL A THEULUOL**

**Gwneud BARCUD a 'GWESTAI GWENYNOL'**

gyda phlant ym Mharc Meurig

Am fwy o wybodaeth gwelwch y posteri a thafleini

mewn siopau, caffis a thafarnau lleol

## Cynllun Mentrau Iaith y Gogledd

Ydych chi eisiau hyfforddi yn y maes awyr agored?

Ydych chi eisiau gwella'ch Cymraeg? Hoffech chi gael cyfieithydd proffesiynol yn eich cyfarfodydd neu ddysgu sut i gyfieithu ar y pryd?

Mae gan Fentrau Iaith y Gogledd gynllun newydd sy'n rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

Mae tair elfen i'r cynllun sef:

### Hyfforddiant Awyr Agored

Gallwn eich helpu i dalu am gyrsiau hyfforddiant awyr agored o bob math. Mae hyd at 75% o gostau'r cwrs ar gael. Mae unrhyw un sy'n siarad Cymraeg ac sy'n byw neu yn gwasanaethu ardal wledig gogledd Cymru yn gymwys.

### Gwersi Cymraeg

Mae 75% o gymorth ariannol hefyd ar gael i unigolyn fynychu cyrsiau dwys yn Nant Gwrtheyrn. Mae gennym ni hefyd gyllid ar gyfer cynnal gwersi niferoedd bychain yng nghymunedau gwledig gogledd Cymru. Os hoffech chi fwy o wybodaeth am y cynllun cysylltwch â Nant Gwrtheyrn ar 01758 750334.

### Cyfieithu Cymunedol

Nod y cynllun yma yw cynnig gwasanaeth cyfieithu proffesiynol am bris gostyngol i fudiadau cymunedol ac elusennol. Gallwn gynnig gwasanaeth ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd. Rydym hefyd yn cynnig hyfforddiant cyfieithu i grwpiau a sefydliadau trydydd sector, yr unig gost i'r sefydliad fyddai costau teithio'r mentor.

Os oes diddordeb gennych mewn unrhyw un o'r cynlluniau uchod cysylltwch â'ch Menter Iaith leol neu gydag Esyllt Tudur 01492 642357 [esyllt@miconwy.org](mailto:esyllt@miconwy.org)

## Agor rhan o hen lein y chwarel

Hanner can mlynedd union ar ôl cau'r lein fe agorwyd rhan fechan ohoni. Dyna'r rheswm dros y cyffro ar Stad Ddiwydiannol y Felin Fawr ddiwedd Gorffennaf. Mae'n amlwg bod cryn ddiddordeb yn yr ardal oherwydd daeth nifer dda o bobl a phlant i weld yr agoriad swyddogol gan reolwr y Chwarel. Ac roedd yr injian fach yn brysur iawn yn cludo plant bach (a mawr) at waelod Allt St. Anns ac yn ôl.

Mae'r diolch i Jonathan Ball a'i dîm am weithio mor galed i wneud yr holl beth yn bosibl. Edrychwn ymlaen at weld beth fydd yn digwydd o hyn ymlaen.

## Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

### Harry Cropper, Gwilym Morris a'r 'Penrhyn Quarry' - Rhan 2.

Bu farw Gwilym Morris ym mis Hydref, 1983, yn 60 oed. Dyma a ysgrifennwyd amdano ar yr achlysur hwnnw ar dudalen gefn rhifyn Tachwedd Llais Ogwan pan gyfeirir ato fel 'peldroediwr o fri, yn fychan o ran corff ac un sydyn o flaen gôl ... [bu'n] aelod o dimau Bangor, Caernarfon, Penygroes ac, wrth gwrs, Penrhyn Quarry. Chwedl o dîm oedd hwnnw yn niwedd y pedwar degau. Er i Gwilym ... gael cynnig chwarae i dimau megis Everton, Hull a Wolves, gwrthod a wnaeth. Rhoddodd bleser i gannoedd o ddilynwyr ar hyd a lled Gogledd Cymru ac mae lle cynnes i Gwilym yn hanes pêl-droed ym Methesda'.

Mae'n rhaid crybwyll rhai o'r hogia eraill fu'n chwarae i Penrhyn Quarry yn y cyfnod hwnnw – er enghraifft, Gwilym Davies (gôl-geidwad – a fu farw'n 32 oed ym 1953), Wil Ifor Owen, Richard Jones ('Dic Rocar'), Stan Edwards, Gwilym Hughes, William Wellington Owen, Bob Edgar Jones, ac eraill. Mae ambell un o'r rhain mewn llun arall o'r Penrhyn Quarry, sef yr isod, a dynnwyd, mi gredaf, pan oedd y Penrhyn Quarry yn ei fri ac ar binacl ei lwyddiant yn ystod tymor 1947-48 pan orffennodd ar frig y Gynghrair Gymreig, gan ennill hefyd Her-Gwpan Cynghrair Pêl-droed Arfordir Gogledd Cymru.



**Rhes gefn (o'r chwith):** Meic Hughes; William John ('Taff') Morris (Rheolwr); ? ; Stanley Taylor; Gwilym Davies; ? ; Kitchener Roberts; ? ; ? ; David Llewelyn

**Rhes flaen:** Bob Roberts (Gornal); Wil Ifor Owen; Harry Cropper; Richard Jones ('Dic Rocar'); Gwilym ...; William Wellington Owen; Bob Edgar Jones; Mr Herbert Basil Smart.

Er mor allweddol fu cyfraniad pob aelod o dîm y Penrhyn Quarry dros y blynyddoedd, roedd y blaenwr Harry Cropper, 'streicar' yr oes a fu cyn i'r term gael ei fathu hyd yn oed, yn uchel ei barch gan bob cefnogwr pêl-droed yn Nyffryn Ogwen a'r tu hwnt yn y cyfnod hwnnw. A chan gymaint fu'r edmygedd ohono gan y trigolion lleol, ni ddylid caniatáu i amser bylu'r cof amdano nac i'w enw fynd i ebargofiant heb i ni osod ar glawr ychydig o'i hanes. Parhawn â stori Harry Cropper yn rhifyn nesaf Llais Ogwan.

I'w barhau





# GAIR O'R DOSBARTH

## Ysgol Dyffryn Ogwen

### Canlyniadau Arholiadau

Yr oedd canlyniadau arholiadau allanol yr ysgol eleni yn ardderchog. Cafwyd y canlyniadau TGAU gorau erioed yn hanes yr ysgol gyda 95% o'r disgyblion yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i 5 o raddau A\*-C, ac ni adawodd yr un disgybl heb ennill cymhwyster. Mae'r canlyniadau yn glod i ymroddiad y disgyblion, i gefnogaeth eu rhieni, ac i waith caled yr athrawon wrth baratoi'r disgyblion. Roedd y canlyniadau yn dda iawn ar draws yr ystod gallu, ond mae'n rhaid rhoi clod arbennig i Cara Thomas o Dregarth a gafodd 4A\* a 6A. Canlyniad hyn yw fod bron hanner y flwyddyn wedi dychwelyd i'r Chweched Dosbarth eleni. Un gwahaniaeth eleni oedd i'r bechgyn yn gyffredinol wneud yn well na'r merched - patrwm sy'n groes i'r arfer.

Yr oedd y canlyniadau Lefel A hefyd yn dda iawn gyda phob myfyriwr yn llwyddo i fynd i'r coleg neu gwrs o'u dewis. Mae'n rhaid llongyfarch dau o'r bechgyn yn arbennig am ganlyniadau rhagorol – Gethin Sherrington o Dregarth a enillodd 1A\* a 3A ac yn mynd i Fanceinion i astudio Ffiseg, a Henri Williams o Lanllechid a enillodd 2A\* a 2A. Mae Henri yn mynd i goleg yr Iesu Rhydychen i astudio Mathemateg. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd.



Henri Williams a Gethin Sherrington

### Athrawon Newydd

Yr ydym yn croesawu tri o athrawon newydd ar ddechrau'r tymor, sef Mrs Llinos Murphy, Mathemateg, Miss Amy Hargreaves, Saesneg, a Miss Lowri Evans, Cymraeg. Hefyd Mrs Julie Hughes, Mrs Heidi Parker a Miss Leusa Williams yn gymorthyddion. Yr ydym hefyd yn croesawu cogyddes newydd yn y gegin, sef Mrs Ellen Roberts. Croeso cynnes iddynt i gyd.

### Blwyddyn 7



Braf iawn oedd cael croesawu 70 disgybl newydd i flwyddyn 7 ar ddechrau'r tymor yma. Buont yma ar sawl ymweliad yn ystod blwyddyn 6 ac erbyn hyn wedi hen setlo!

## Ysgol Abercaseg

### Mabolgampau'r Ysgol

Yn dilyn perfformiad sawl disgybl yn mabolgampau'r ysgol, fyddem ni'n synnu dim os y byddwch yn clywed amdanynt, ymhen blynnyddoedd, yn efelychu campau Mo Farrah ac Usain Bolt yn y Gemau Olympaidd, gyda sawl medal aur yn dychwelyd i Fethesda! Cafwyd prynhawn cyffrous gyda phawb yn dathlu llwyddiant ei gilydd. Gellir gweld lluniau o'r enillwyr a'r rasmus yn adran 'albwm' gwefan yr ysgol [www.ysgolabercaseg.org](http://www.ysgolabercaseg.org)



### Llwyddiant Ysgubol

Er y siom o orfod canslo Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen eleni, bu i'r pwyllgor barhau i gynnal y cystadlaethau celf, gyda'r ysgol unwaith eto'n profi llwyddiant ysgubol. Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd ac a fu'n llwyddiannus.



### Gwobr Arian i'r ardd

Bu i swyddog o 'Gerddi Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru' ymweld â gardd yr ysgol. Roedd yn rhyfeddu at y ffordd yr oedd tir gwastraff wedi ei drawsnewid yn ardd gynhyrchiol o fewn blwyddyn a'r modd y defnyddir yr ardd i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Cymaint oedd ei chanmoliaeth, fel y bu iddi ddyfarnu 'Gwobr Arian' i'r ardd. Diolch i bawb sy'n helpu gyda'r garddio, ac os oes rhywun arall yn y gymuned yn dymuno ein helpu, cysylltwch â ni. Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw help.

### Ffarwelio ag Anti Ellen

Llongyfarchiadau i Anti Ellen, cogyddes yr ysgol, ar gael ei phenodi yn gogyddes Ysgol Dyffryn Ogwen. Byddwn yn gweld ei cholli gan fod ei bwyd wastad yn flasus a'i bod mor barod i baratoi ei chacennau arbennig ar gyfer gweithgareddau allgwricwlaidd yr ysgol. Diolch Anti Ellen a phob hwyl i chwi yn eich swydd newydd.

### Croeso

Croeso i Mrs Carys Owen i'r ysgol fel athrawes newydd dosbarth Tryfan a chroeso hefyd i'r holl ddisgyblion newydd yn nosbarth Llafar. Gobeithio y byddwch i gyd yn hapus yn ein plith.

## Ysgol Llanllechid

### Croeso'n ôl i bawb

Mae'n ddechrau blwyddyn addysgol unwaith eto, ac yn ôl yr arfer, dechreuodd lluo o ddisgyblion newydd yn y Dosbarth Meithrin. Maent wedi setlo'n syth, ac wedi cael mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau di-ri, - pob un wrth ei fodd! Croeso hefyd i weddill y disgyblion, - maent yn barod am flwyddyn gyffrous arall yn yr ysgol! Mae'n rhaid estyn croeso arbennig i Mrs MacDonald yn ôl i'r gegin wedi cyfnod o salwch. Mae'n braf ei gweld yn edrych mor dda!

### Dymuno'n dda

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Ms Rhian Haf wedi cyfnod byr yn yr ysbyty. Braf yw clywed ei bod yn dychwelyd i'r ysgol cyn bo hir. Yn ogystal, dymunwn wellhad buan i Mrs Shirley Hartleb y gogyddes a gafodd ddamwain yn ddiweddar.

### Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf at deulu'r diweddar Gavin Bolton. Roedd hi'n flin iawn gennym glywed y newyddion trist. Mae pawb yn Ysgol Llanllechid yn cofio atoch.

### Llongyfarch cyn ddisgyblion

Rydym fel ysgol yn dymuno llongyfarch ein cyn ddisgyblion i gyd ar eu hymdrechion a'u llwyddiant gyda'u harholiadau a'u cyrsiau. Pob dymuniad da i chwi oll, mewn ysgol, coleg neu fyd gwaith.

### Ffair Hydref

Cofiwch am ein Ffair Hydref a gynhelir ar Fedi 29. Dewch yn lluo!

## Ysgol Llandygái



Croeso i blant newydd Dosbarth Traed Bach



ac i Ddosbarth Enfys, Medi 2012.

## Ysgol Tregarth

### Croeso !

Croeso mawr i holl blant newydd yr ysgol ar ddechrau blwyddyn arall.



Mae deuddeg o blant meithrin newydd wedi dechrau 'leni, i gyd yn dod i'r ysgol yn y prynhawn.



Mae ugain o blant wedi cychwyn yn y dosbarth Derbyn. Croeso mawr iddynt i gyd!!

Croeso cynnes i Miss Siwan Williams, athrawes newydd dros dro yn yr ysgol. Gobeithio y bydd yn hapus iawn efo ni.

### Miri Medi

Mae'r ysgol yn edrych ymlaen yn fawr at gynnal taith gerdded nodedig o amgylch y pentref yn ystod y mis. Bydd mwy o fanylion i ddilyn. Croeso cynnes i bawb.

### Her Ddarllen Llyfrgelloedd Gwynedd

Llongyfarchiadau i holl blant yr ysgol a gymerodd ran yn Her Ddarllen Lab Straeon, Llyfrgelloedd Gwynedd dros y gwyliau haf. Bydd y medalau yn dilyn yn fuan.

## Ysgol Rhiwlas

Rydym yn edrych ymlaen at flwyddyn addysgol newydd yma yn Rhiwlas. Estynnwn groeso i wyth ffrind bach newydd yn y dosbarth meithrin ac i bedwar disgybl dosbarth derbyn sydd wedi dechrau yn llawn amser. Pob hapusrwydd i chwi blant os!

Dymunwn yn dda hefyd i'r plant a symudodd i'r ysgol uwchradd eleni - gobeithiwn eich bod yn cario 'mlaen gyda'r gwaith da a wnaethoch yn Ysgol Rhiwlas. Cofiwch ddod nôl i'n gweld!

Dymunwn yn dda hefyd i Mrs Davies ar achlysur ei hymddeoliad fis Medi. Diolchwn yn fawr i Mrs Green am ei holl waith caled yn ystod gwaeledd Mrs Davies.

Rydym hefyd yn cofio'n gynnes at Shan Jones, ein cogyddes sydd ar y funud i ffwrdd o'r ysgol oherwydd gwaeledd.

Edrychwn ymlaen at atgyfodi'r clybiau ar ôl ysgol gan gynnig gofal i blant Ysgol Rhiwlas tan 5 yr hwyr. Rhai o'r clybiau fydd clwb celf, yr Urdd a phêl-droed. Cofiwch gefnogi'r clybiau!

## Ysgol Bodfeurig

### Croeso Nôl

Croeso mawr yn ôl i bawb i'r Ysgol ar ôl y gwyliau. Mae'n braf gweld pawb yn ôl ac yn barod i weithio'n galed! Hoffem estyn croeso arbennig i Anti Medwen sydd yn dechrau nôl ar ôl cyfnod mamolaeth.

Hoffem estyn croeso mawr i bob disgybl sydd yn cychwyn yn yr ysgol yn y dosbarth Meithrin ac mewn dosbarthiadau eraill. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yma! Croeso hefyd i Miss Ffion Roberts sydd yn ymuno â staff dysgu'r ysgol. Bydd Miss Roberts yn dysgu blwyddyn 2 a 3.



Dyma blant y dosbarth Meithrin ar eu diwrnod cyntaf yn yr ysgol!

### Safle Gwe yr ysgol

Mae gan yr ysgol safle gwe newydd sydd yn llawn gwybodaeth a straeon felly ewch i gael golwg. Y cyfeiriad yw:  
www.bodfeurig.gwynedd.sch.uk

## Ysgol Pen-y-bryn

### Ymwelwyr arbennig

Ar Orffennaf 9fed daeth Mr Alun Ffred Jones AS, Mr Selwyn Griffith, Cadeirydd y Cyngor a'r Cynghorydd Mrs Ann Williams i'n hysgol ni i'n llongyfarch ar ein harolwg llwyddiannus ym mis Chwefror. Aeth y tri o gwmpas yr ysgol a chael cyfarfod y plant a'r staff. Roeddynt wedi gwirioni wrth weld yr holl waith caled a brwdfrydedd y plant. Diolch yn fawr i chi am ddod atom!



Yn y llun gwelir yr ymwelwyr gyda'r Pennaeth, Ceren Lloyd, a rhai o'r disgyblion, sy'n dangos copi o'r adroddiad y maent mor falch ohono.

Am fwy o fanylion am yr arolwg darllenwch yr erthygl olygyddol ar dudalen 2.

### Sgipathon a Phrynhawn Hwyl

Cawsom Sgipathon noddedig a phrynhawn hwyl hynod lwyddiannus eto eleni! Llwyddom i gasglu dros £1450 o arian – swm anhygoel! Diolch i bawb a gefnogodd yr ysgol. Roedd gwobr arbennig i'r rhai a oedd wedi casglu'r swm uchaf o arian nodd, sef tocynnau i weld gêm bêl-droed yr Olympics yng Nghaerdydd. Derbyniwyd y tocynnau drwy brosiect 'Get Set' yr Olympics ac Ysbrydoliaeth Rhyngwladol y Cyngor Prydeinig am ein gwaith ardderchog i lwyddo drwy chwaraeon a'n cyswllt efo ysgol yn Indonesia. Enillwyr y tocynnau oedd Daniel ac Osian Hughes, Siwan Lewis, Cerys Thomas, Seamus Curran a Katie-Maye Jones. Llonyfarchiadau mawr i chi i gyd!

### Ffarwelio

Trist iawn oedd ffarwelio gydag un o ddisgyblion Ysgol Pen-y-bryn. Mae Bobby Miller a'i deulu yn gadael Bethesda ac yn ymgartrefu yn Dover. Cafwyd parti ffarwel gyda digonedd o fwyd a dawnsio difyr iawn!! Dymunwn yn dda i chi fel teulu yn eich cartref ac ysgol newydd.

### Ymweliad.

Cafodd disgyblion blwyddyn 5 ymweld ag Ysgol Dyffryn Ogwen ar ddiwedd y tymor. Cafwyd diwrnod arbennig o dda gyda'r plant yn cael gwersi TGCh, Mathemateg, Hanes a Thechnoleg Bwyd. A blasus iawn oedd y bisgedi hefyd! Hoffem ddiolch i staff yr ysgol am eu croeso a gwersi difyr.

## Taith o Amgylch Mynwentydd Dyffryn Ogwen

gan Andre Lomozik  
Rhan 2

Claddfa Ymneilltuol Coetmor

Rhoddyd y tir gan yr Arglwydd Penrhyn a dechreuwyd claddu yno yn 1902.

### Y bedd cyntaf

Er Serchog goffadwriaeth am John Pritchard Gladstone House Rachub Yr hwn a hunodd yn yr lesu Ionawr 27 1902 yn 45 mlwydd oed



Dros y blynyddoedd diwethaf 'rwyf wedi bod yn cofnodi manylion y cerrig beddau yn y fynwent i Gymdeithas Gwreiddiau Gwynedd a dyma restr o alwedigaethau a chymwysterau rhai a gladdwyd mewn un rhan o'r fynwent ac achosion marwolaeth rhai eraill .

Gweinidogion	4	Doctor	1
Blaenoriaid	5	Organydd	1
Athrawon	3	Pobydd	1
Crydd	1	Teilwres	1
Cynghorydd	1	Swyddog Radio	1
Gof	1	Capten	1
Nyrs	1		

Bedd arall sydd i'w weld yn mynwent Coetmor yw bedd A. R. Tremarco, 'Radio Officer ar fwrdd y llong M. V. Van Der Helst' llynges fasnachol o Norwy.



Bu fu farw yr 21ain o Fedi 1945 yn 22ain oed.

Ei enw llawn oedd Angelo Robert Tremarco ac roedd yn fab i Pietro a Lillian Tremarco o 'Waterloo Liverpool'. Tybed a oedd ganddo gysylltiad ag ardal Bethesda?

I'w barhau....

# Gwobr i Gricedwr



Brynhawn Mercher, 29 Awst, cafodd Dewi Roberts o Glwb Criced Bethesda ei wobrwyo am ei wasanaeth i griced ym Methesda, Sir Gaernarfon a Gogledd Cymru am dros 40 mlynedd. Bu ef a Morfudd, a'r plant Sara a Ioan, yn mwynhau diwrnod yn stadiwm SWALEC, Caerdydd. Yn anffodus, fel yr hanes ym misoedd yr haf eleni, daeth y glaw i amharu ar y gêm rhwng Morgannwg a Northants ar y maes. Roedd hon yn wobwr drwy Gymru gyfan ac o ganlyniad i ennill y wobwr yma enwebwyd Dewi am wobwr drwy Brydain a bydd yn cael mwynhau diwrnod yn Lords yn ystod mis Hydref.

Ymunodd Dewi â'r clwb lleol yn ifanc, gan chwarae i dîm ieuenctid y Clwb cyn cael ei gyfle yn y tîm cyntaf ar adeg pan oedd Andy Lyght, bachgen o Indai'r Gorllewin, yn chwaraewr proffesiynol i'r clwb. Datblygodd fel wicedwr a batiwr dros y blynyddoedd a chafodd ei adnabod drwy'r Gogledd fel cledwr caled o'r bêl fach goch. Cafodd ei ddewis nifer o weithiau i chwarae dros dîm Sir Gaernarfon. Bu hefyd yn gapten ar Glwb Bethesda dros nifer o dymhorau. Deil i chwarae yn y tîm cyntaf gan edrych ymlaen at chwarae pob gêm.

Dros y blynyddoedd diwethaf bu'n ymgymryd â'r gwaith o geisio datblygu pobl ifanc o fewn y clwb yn ogystal a gweithio gyda thimau leuenctid Cylch Eryri. Yn ychwanegol at hyn y mae'n Gadeirydd ar y clwb ar adeg pan fo clybiau chwaraeon yn gyffredinol yn cael amser caled yn yr oes sydd ohoni. Fe'i gwelir yn aml iawn yn torri gwair, neu gyda rhaw yn ei law yn clirio sbwriel neu'n agor rhyw ddraen o amgylch y cael. Felly nid chwaraewr yn unig mo Dewi ond un sy'n barod i dorchi ei lewys i wneud y gwaith caled, llawer ohono yn y cefndir. Ni allwn anghytuno â Roger Morris, Cadeirydd Criced Cymru, pan ddywedodd wrth gyflwyno'r wobwr iddo: "Mae Dewi'n cynrychioli popeth sy'n dda o fewn byd y clybiau criced yng Nghymru."

Wrth ei longyfarch yn galonnog, tybed a allwn ofyn i gyn-chwaraewyr ac aelodau'r clwb edrych ar y sefyllfa a chynnig help i gynyddu diddordeb pobl ifanc lleol mewn criced? Byddai'n dda gweld y cymorth yn cael ei roi gan rai y bu'r Clwb yn agos at eu calonnau yn y gorffennol, gan aildanio'r hen ysbryd a berthynai i Barc Villa pan oedd Dewi'n dechrau ar ei yfa.

## Côr Meibion y Penrhyn

### Tymor Newydd

Ailgydiodd y côr yn yr ymarferion a'r cyngherddau cyn diwedd Mis Awst eleni gyda gwahoddiad i ganu yn Ninas Dinlle pan oedd Rhys Meirion yn cwblhau ei daith gerdded epig o Abertawe i Gaernarfon i godi arian i Ambiwllans Awyr Cymru. Ar gyfer yr achlysur dysgodd y côr gân a wnaed yn enwog gan Bryn Terfel sef Anfonaf Angel a gyfansoddwyd gan Hywel Gwynfryn a Robat Arwyn. Roedd Robat Arwyn wedi ei blesio'n fawr gan y trefniant i gôr meibion a wnaed gan ein harweinydd Owain Arwel a gyda pherfformiad y côr o'r darn

Yn yr un wythnos dycvhwelodd y côr i Landudno i ganu yn Eglwys Sant Ioan o flaen cynulleidfa niferus a chyffredin iawn yw clywed canmoliaeth uchel i'r rhaglen a'r perfformiad gyda mynd mawr ar CD ddiweddaraf y côr, sef *Anthem*. Os nad ydych wedi ei chael eisoes mynnwch un ar eich hunion gan fod mynd mawr arni ymhob man. Eglwys Betws y Coed oedd y gyrchfan Nos Sul 9fed o Fedi ac yno roedd cynulleidfa lawn o bobl o bob cwr o'r byd wedi dod ynghyd i wrando ar sain gynhyrfus a bywiog y côr sydd wedi ailddarganfod egni a phwrpas o'r newydd o dan yr arian byw o arweinydd yr ydym mor ffodus o'i gael.

Mae dyddiadur y côr yn llawn drwy'r gaeaf a da yw gallu dweud bod cyngherddau ar y gweill gyda Chôr Meibion Corby yn Llandudno pryd bydd yr elw yn mynd at fâd achub y dref, a chyngerdd i Gymdeithas Gymraeg Beverley yn Swydd Efrog yn ddyddiadau i erdrych ymlaen amdanynt. Cefnogaeth.

Gall y côr ymhyfrydu erbyn hyn ein bod wedi llwyddo i ennyn cefnogaeth ariannol sylweddol gan Gronfa Buddsoddi Cymunedol Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Bydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio i brynu piano newydd yn ogystal ag offer electronig a fydd yn helpu'r côr i ddatblygu ansawdd y perfformiadau. Bydd yr holl offer ar gael i unrhyw gymdeithas leol arall fydd yn dymuno manteisio ar y cyfleusterau.

### Pesda Roc – O'r Talwrn

#### Proffwyd

Aeth â'i dân i blith dynion; â'i angerdd  
Gyrrodd longau'r galon;  
Ei hyder a'i dyner dôn  
Ydyw'n ffenest...a'n ffynnon

**Gwynfor ab Ifor**



## OWEN'S TREGARTH

### Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd  
Arbenigo mewn meysydd awyr

**01248 602260**

07761619475  
pandv.owen@btinternet.com

## Tony Davies

### Plymio a Gwresogi

Tŷ Capel Peniel, Llanllechid  
Rhif Corgi 190913

Symudol 078184 10640

01248 601 466

## WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau  
yng Nghanolfan  
Gymdeithasol  
Tregarth bob  
nos Fercher  
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch  
â'r hysbyseb hwn hefo chi

◆ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ◆  
Manylion gan Jake neu Elena  
Fitzpatrick - 01248 602416  
neu galwch heibio'r dosbarth

## Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



DEWCH I WELD  
EICH  
CYFREITHIWR  
LLEOL

SGWÂR BUDDUG  
STRYD FAWR  
BETHESDA  
GWYNEDD  
LL57 3AG

BETHESDA  
01248 600171  
torg@hotmail.co.uk

## Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF  
AM DDIM

EWYLLYSIAU A  
PHROFIANT

SYMUD Tŷ

Copa

### Siop Trin Gwallt a Harddwch

Newydd agor ym Methesda ym mis Medi  
Yn arbenigo mewn trin gwallt  
merched, dynion a phlant.

Cynghori, gosod a thorri wigiau  
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio  
(rasal "cut throat")

Mwy o fanylion gan Wendy ar 07748206817

Sefydlwyd

1969

## m.hughes a'i fab

### CONTRACTWYR TOI

2 Hen Aelwyd, Bethesda  
600633

(symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.  
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.  
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am  
waith diguro.

Tony  
Twomey

Peintiwr ac  
Addurnwr  
Trwyddedig

Gwneir unrhyw waith,  
mewnol ac allanol.

Ffôn Symudol:  
07796156829  
Tŷ: 01248 602039



## IOAN WYN JONES

### Y Dyn Handi

am bob math o waith o gwmpas y tŷ

- Plastro a Rendro
- Teilsio Waliau a Lloriau
- Gwaith Saer, Gosod Drysau
- Paentio, Papuro, Addurno

FFONIWCH Y DYN HANDI  
01248 602762 / 07884 282912

## Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg  
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnio  
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch  
01248 601164

## L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

## ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,  
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953  
Ffacs: 602571  
lsturrs@googlemail.com

## "J.R."

### SGAFFALDWYR

Yr Iard, Ffordd Stesion  
Bethesda

Ffôn: (01248) 601754

Dyma ni - sgaffaldwyr o fri

## DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr  
Ysglodion pren i'r ardd  
Ffensio a thorri coed  
Asiant system gwresogi trwy  
losgi coed

01248 605207

## D. E. HUGHES a'i feibion

### YMGYMERWYR ADEILADAU

Gardd Eden, Stryd Fawr,  
Rachub, LL57 3HF

Ffôn a Ffacs 01248 602010  
Symudol 077962 44765

## CRICED BETHESDA

### Adroddiad diwedd tymor

Rhyw dymor o law a hindda fu'r tymor i'r Clwb. Mae'r ail dîm wedi gorffen yn y trydydd safle yn eu cynghrair a'r tîm cyntaf yn bedwerydd. Siom, felly, nad ydyw'r un o'r ddau yn cael dyrchafiad. Mewn tymor lle bu'r tywydd gwlyb yn chwarae rhan bwysig ac wedi atal y timau rhag ennill ychwaneg o bwyntiau, mae rhai gemau'n sefyll allan. Chwaraeodd yr ail dîm dan gapteniaeth Iwan Ellis 11 o gemau gan ennill 9; yn anffodus collwyd 9 gêm i'r tywydd.



Ben Parker a Liam Griffiths

I'r ail dîm fe dorwyd record y gynghrair pan sgoriwyd 376 am 3 wiced yn erbyn Corwen gydag Alwyn Roberts yn sgorio 121 h.f.a, Ashish Salgonkar 140 h.f.a a Richard Greene 53. Enillwyd y gêm yma'n hawdd. Wythnos barhaodd y record wrth i dîm o Mochdre gyrraedd cyfanswm o 389. Ond mewn tymor lle y collwyd amser chwarae 'roedd Bethesda'n benderfynol o gipio'r record a gwnaethpwyd hynny pan sgoriwyd 460 am 1 wiced yn erbyn ail dîm Dolgellau. Ar y diwrnod hanesyddol yma aeth Ben Parker ymlaen i sgorio 297 h.f.a a Liam Griffiths 103 h.f.a.



Ashish ac Alwyn

### Gêm Ryngwladol

Chwaraewyd gêm rhwng tîm dan 11 oed Cymru a thîm Sir Gaer ar gae Bethesda. Tîm Cymru enillodd a hynny gyda help Mathew Buchannan o'r Clwb a gipiodd 3 wiced i sicrhau'r fuddugoliaeth. Dewiswyd Mathew i chwarae mewn dwy gêm arall dros y cyfnod ac fe gafodd gryn lwyddiant yn cipio 6 wiced arall at y tair a gafodd ym Methesda.

Gêm arall a chwaraewyd oedd gêm gyn-derfynol i oedran dan 13 oed, rhwng Eryri a Gwent. Llwyddodd y tîm o Eryri i ennill gyda Morgan Williams o Bwllheli yn brif sgoriwr gyda 74.

## BOWLIO



### Tarian Clive Llywelyn

Llwyddodd cyfuniad o dimau A a B yng Nghynghrair Dydd Mawrth i adennill Tarian Clive Llywelyn oddi ar Lanfairfechan mewn gornest gyffrous b'nawn Dydd Iau y 6ed o Fedi. Enillodd y parau a 6 allan o'r wyth unigolyn i ennill eu gemau yn erbyn tîm cryf. Tarian yw hon a gyflwynir gan Georgina Llywelyn er cof am ei diweddar ŵr. Diolch i'r ddau gapten, Mr Bryan Owen a Mr Dilwyn Owen am eu gwaith da yn annog tîm Bethesda i lwyddiant yn absenoldeb anorfod y llywydd!

### Bowlio – Bethesda

Unwaith eto mae diwedd y tymor yn agosau ar y lawnt a bu'n dymor eithaf llwyddiannus i'r Clwb lleol. Yn y gynghrair ddydd Sadwrn mae'r tîm yn debygol o orffen yn y trydedd safle, tu ôl i dimau cryf Conwy a Dyserth.

Mae'r tîm nos Lun, dan arweiniad Rita a Gareth Lewis wedi cwblhau'r tymor gan orffen yng nghanol y tabl. Mae'r tîm nos Fercher yn agos i waelod y gynghrair ond mae gwell tymor i ddod y flwyddyn nesaf.

Wedi brwydro'n galed mae 'Brigâd Bryan' yn o agos i waelod tabl B ar ddydd Mawrth er gwaethaf ymdrechion Dens a Derfel, gyda 'Dewrion Dilwyn' y tîm arall yn debygol o esgyn i'r adran gyntaf.

Llongyfarchiadau mawr i Wendy Thomas (ar y dde) ar ennill pencampwriaeth Gwynedd i ferched dros 60 oed. Fe sgubodd pawb o'r neilltu mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd ym Mhenmaenmawr ar ddydd Llun, 20 Awst. Roedd 20 o ferched yn y gystadleuaeth.

